# Adroddiad Stiwardiaeth Blynyddol

2023–24



# Rhagair

## AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU AR 31 MAWRTH 2024

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r pedwerydd Adroddiad Stiwardiaeth Blynyddol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein gweithgarwch stiwardiaeth dros y flwyddyn, yn nodi'r camau yr ydym wedi'u cymryd ar y cyd â'n partneriaid a'r canlyniadau rydym wedi'u cyflawni, gan ddangos ein bod yn cydymffurfio â Chôd Stiwardiaeth Cyngor Adrodd Ariannol y DU.

Roeddem yn falch o fod wedi cadw ein statws llofnodwr yn gynharach eleni, gyda chynnydd yn parhau i gael ei wneud i wella ein dull buddsoddi cyfrifol (RI). Fodd bynnag, gwnaethom gydnabod bod sawl maes lle'r oedd PPC yn dymuno symud ymlaen ymhellach, yn enwedig o ran sut rydym yn adrodd i'n rhanddeiliaid a sut rydym yn mynd i'r afael â risg hinsawdd. Rydym wedi gwneud cynnydd yn y ddau faes hyn wrth hefyd ddatblygu Is-gronfeydd pellach y gall ein wyth cronfa bartner weithredu eu strategaethau buddsoddi priodol drwyddynt.

Roedd y flwyddyn yn sicr yn un o gynnydd, ar lefel ehangach y farchnad, gyda pherfformiad yn gwella o amrywiol siociau macro-economaidd a llacio heriau chwyddiant, yn ogystal ag o ran uchelgeisiau Buddsoddi Cyfrifol y Bartneriaeth, gyda'r Gronfa Gyfunol yn symud ymlaen mewn nifer o feysydd allweddol.

Cwblhaodd y Gronfa Gyfunol ymarfer adroddiad hinsawdd helaeth, gan edrych ar sut y mae Cronfeydd gwaelodol Cymru wedi datblygu o ran hinsawdd rhwng 2019 a 2022, a chyhoeddodd ei Hadroddiad Hinsawdd cyntaf ar gyfer Cymru gyfan. Roedd yr ymarfer cydweithredol hwn yn cwmpasu'r holl asedau, nid y rheiny o fewn y Gronfa Gyfunol yn unig. Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar weithredu'r amrywiol argymhellion polisi a ddeilliodd o'r adroddiad, gan gynnwys: sefydlu fframwaith hinsawdd Partneriaeth Pensiwn Cymru; datblygu ein rhestr 'ffocws hinsawdd' ein hunain ar gyfer craffu manylach ar faterion y mae hinsawdd yn effeithio arnynt o fewn sectorau yr effeithir arnynt yn sylweddol; ac adroddiad hinsawdd dilynol, yn cwmpasu'r Gronfa Gyfunol, y bwriedir ei gwblhau dros 2024.

Daeth un darn allweddol o waith Buddsoddi Cyfrifol cydweithredol i ffrwyth ym mis Gorffennaf, gyda lansiad yr Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy, lle caiff pob un o'n wyth cronfa bartner eu buddsoddi. Mae gan yr Is-gronfa darged sero net penodol a nifer o waharddiadau sy'n gysylltiedig â thanwydd ffosil, sy'n tynnu sylw at ymrwymiad parhaus Partneriaeth Pensiwn Cymru i ymgorffori Buddsoddi Cyfrifol.

Gwnaed cynnydd hefyd ar ehangu ein cyfres o fuddsoddiadau trwy benodi dyranwyr marchnadoedd preifat ar draws dyledion preifat, seilwaith ac ecwiti preifat, lle'r oedd ystyriaethau buddsoddi cyfrifol yn chwarae rhan ganolog yn y broses o ddewis ein partneriaid. Dylai'r cynnydd hwn barhau i ganiatáu i asedau lifo i mewn i Bartneriaeth Pensiwn Cymru dros amser, gan bwysleisio'r angen i ni barhau i godi ein disgwyliadau a'n safonau stiwardiaeth.

Gwnaethom gryfhau ein dull stiwardiaeth trwy ddatblygu egwyddorion uwchgyfeirio craidd, gan gydweithio'n agos â Russell Investments, ein darparwr datrysiadau rheoli buddsoddiadau, a Robeco, ein Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu. Adlewyrchwyd y cydweithio gwell hwn hefyd trwy i ni fod yn bresennol mewn dau o baneli cleientiaid Robeco dros y flwyddyn, yn enwedig yn y dewis o themâu a ddewiswyd gyda'n cefnogaeth, Bioamrywiaeth y Môr a Chemegau Peryglus.



**Elwyn Williams**

Cadeirydd,
Cyd-bwyllgor
Llywodraethu
Partneriaeth
Pensiwn Cymru
Hydref 2024

Ar ein rhan, pleidleisiodd Robeco ar dros 15,000 o benderfyniadau mewn dros 1,200 o gyfarfodydd ar draws ein His-gronfeydd ecwiti a chafodd dros 900 o ymgysylltiadau (ar draws dros 600 o achosion ymgysylltu) yn rhychwantu ein hasedau rhestredig, gan gwmpasu ystod o faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG).

Ar y cyfan, rydym wrth ein bodd gyda'r cydweithio parhaus a gwerthfawr ar fuddsoddi cyfrifol sydd wedi digwydd ar draws yr wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) sylfaenol yng Nghymru, a sut mae hyn wedi'i hwyluso gan ein darparwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod pwysigrwydd perchnogaeth weithredol gyfrifol, ac edrychwn ymlaen at ddatblygu ein nodau stiwardiaeth gyda'n gilydd dros y flwyddyn nesaf a thu hwnt.

# Cipolwg ar 2023/24

Cyfanswm yr asedau cyfun: **£18.5bn**, sy'n cynrychioli **70%** o gyfanswm asedau cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru

Marchnadoedd rhestredig: **£13bn** a fuddsoddwyd yn weithredol drwy 10 is-gronfa, **73%** mewn ecwiti

Marchnadoedd preifat: **£298mn**, ar draws seilwaith, credyd preifat ac ecwiti preifat

Lansio ein his- gronfa ecwiti gweithredol cynaliadwy, gyda **tharged sero net o 2040**

Datblygu set o **egwyddorion uwchgyfeirio**

Cyhoeddi ein **Hadroddiad Hinsawdd Cymru** Gyfan cyntaf

Cynnal ein hadroddiad cyntaf **ar gysylltiad â datgoedwigo**

Cafwyd gostyngiad o **12%** yng nghyfartaledd **Dwysedd Carbon Cyfartalog a Bwysolwyd (WACI)** ein buddsoddiadau ecwiti gweithredol dros y flwyddyn

Bwriwyd dros **15,000** o bleidleisiau ar draws ein portffolio ecwiti gweithredol mewn dros **1,200** o gyfarfodydd

Roedd **15%** o'n pleidleisiau yn erbyn y rheolwyr

Ar ein rhan, ymgysylltodd Robeco ar draws **21** thema wahanol

Cefnogodd PPC lansiad dwy thema: **Bioamrywiaeth** y Môr a **Chemegion Peryglus**

# PWY YDYM NI

## Ein credoau

Rydym yn ffodus i fwynhau lefel uchel o gydweithio rhwng ein holl randdeiliaid. Credwn fod cyfraniadau parhaus yr Awdurdodau Cyfansoddol tuag at ddablygiad y Gronfa Gyfunol a chyflawni ein nodau cyffredin yn faes sydd o gryfder penodol. Er mwyn adlewyrchu ffocws cynyddol ar fuddsoddi cyfrifol, yn dilyn ymgynghori â phob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol, gwnaethom ychwanegu at amcanion y Gronfa Gyfunol dros y flwyddyn, gydag amcan ychwanegol a oedd yn canolbwyntio mwy ar gynaliadwyedd:

- Darparu trefniadau cyfuno sy'n galluogi cronfeydd unigol i weithredu eu strategaethau buddsoddi eu hunain, lle'n ymarferol.
- Cyflawni arbedion cost sylweddol ar gyfer Cronfeydd Pensiwn cyfranogol wrth wella neu gynnal perfformiad buddsoddi ar ôl talu ffioedd.
- Rhoi trefniadau llywodraethu cadarn ar waith i oruchwylio gweithgareddau'r Gronfa Gyfunol.
- Gweithio'n agos gyda Chronfeydd Cyfunol eraill er mwyn archwilio'r buddion y gallai pob rhanddeiliad yng Nghymru eu cael trwy ddatrysiadau cyfuno ehangach neu fuddsoddiadau uniongyrchol posibl.
- Cyflwyno fframwaith buddsoddi sy'n cyflawni'r canlyniadau gorau i'n prif randdeiliaid: yr Awdurdodau Cyfansoddol: Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn gallu defnyddio'r fframwaith hwn i gyflawni'r canlyniadau gorau i Aelodau a Chyflogwyr eu Cynlluniau.
- Cyflawni canlyniadau buddsoddi cynaliadwy hirdymor wrth wneud penderfyniadau, trwy ddyrannu cyfalaf, parhau i graffu ar reolwyr asedau, ac arfer yr hawliau a'r cyfrifoldebau sy'n codi fel perchnogion asedau.

## Ein credoau yn ymarferol

Rydym yn parhau i gredu fod ein cryfder i'w gael yn ein credoau cyffredin a'n gallu i gydweithio tuag at gyflawni amcanion ar y cyd er budd holl randdeiliaid Partneriaeth Pensiwn Cymru. Adlewyrchir y rhain nid yn unig yn y model gweithredu a ddewiswyd gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru, gan gynnwys yr angen am arbenigedd allanol, ond hefyd yn y pwysigrwydd yr ydym yn ei roi i waith Grŵp Llywio Buddsoddi Cyfrifol Partneriaeth Pensiwn Cymru (RISG), sy'n cwrdd o leiaf unwaith bob chwarter i ymgysylltu'n benodol ar amcanion a chanlyniadau buddsoddi cyfrifol cyfunol y Gronfa Gyfunol.

O'r pwys mwyaf i weithredu ein hamcanion a'n credoau y mae defnyddio ein darparwyr gwasanaeth i gyflawni canlyniadau buddsoddi, gyda'n model gweithredu yn parhau i ddibynnu ar arbenigedd allanol i gefnogi rheolaeth barhaus y Gronfa Gyfunol, gan gynnwys yn ein hymdrechion stiwardiaeth a buddsoddi cyfrifol. Mae ehangder asedau dan reolaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi tyfu eto eleni, gyda'r Is-Gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy yn cael ei lansio'n swyddogol a chwblhau gwaith pellach ar ddyraniadau marchnad breifat Partneriaeth Pensiwn Cymru, gan gynnwys lansio ein rhaglen ecwiti preifat a dechrau caffael dyrannwr eiddo tirol.

# GWRTHDARO BUDDIANNAU

Mae Awdurdodau Cyfansoddol Partneriaeth Pensiwn Cymru bob amser wedi gorfod adnabod, rheoli a monitro gwrthdaro buddiannau. Mae'r broses o gyfuno Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol wedi golygu bod Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd yn gorfod delio â gwrthdaro buddiannau. Mae hyn yn adlewyrchu'n syml y ffaith y bydd gan bersonél a darparwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru amrywiaeth o rolau a chyfrifoldebau eraill, er enghraifft, fel aelodau o gronfeydd sylfaenol y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu fel ymgynghorydd i fwy nag un o Awdurdodau Cyfansoddol y Bartneriaeth.

Manylir ar ddull Partneriaeth Pensiwn Cymru o reoli gwrthdaro buddiannau yn ein Polisi Gweithdrefnau a Gwrthdaro Buddiannau. Lluniwyd y Polisi hwn i arddangos ein hymrwymiad i adnabod, rheoli a monitro achosion o wrthdaro buddiannau. Egwyddorion allweddol ffordd Partneriaeth Pensiwn Cymru o reoli gwrthdrawiadau yw:

- **Adnabod:** dylai partïon fod yn flaengar yn eu hymagwedd tuag at reoli unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n codi
- **Cydnabod:** rhaid i bartïon gydnabod unrhyw wrthdaro buddiannau a allai fod ganddynt
- **Datgelu:** dylai partïon fod yn agored gyda'i gilydd am unrhyw wrthdaro buddiannau a allai fod ganddynt
- **Rheoli:** dylai partïon weithio i fabwysiadu datrysiadau ymarferol i wrthdaro buddiannau lle bynnag y bo modd

Mae ein diffiniad o wrthdaro buddiannau yn cynnwys gwrthdaro posibl, tybiedig a gwirioneddol. Mae'r Bartneriaeth yn deall na fydd efallai'n bosibl adnabod, rheoli a monitro pob gwrthdaro buddiannau posibl a thybiedig; fodd bynnag, bydd yn ymdrechu i wneud hynny lle bynnag y modd. Mae'r Polisi hwn wedi'i ddatblygu gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru gan ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol ac mae wedi'i fwriadu i ddarparu canllawiau i bersonél a darparwyr y Bartneriaeth, er mwyn sicrhau nad yw personél a darparwyr y Bartneriaeth yn ymddwyn yn amhriodol.

Mae gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru ddyletswydd ymddiriedol a chyfreithiol i weithredu er budd pennaf rhanddeiliaid a buddiolwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru. Nid yw hyn yn atal personél a darparwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru rhag cael rolau neu gyfrifoldebau eraill a allai arwain at wrthdaro buddiannau.

## Darparwyr allanol

Fel rhan o'i Pholisi Gweithdrefnau a Gwrthdaro Buddiannau, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod y gallai defnyddio darparwyr allanol fod yn ffynhonnell gwrthdaro ac mae felly wedi sicrhau bod gan ei Darparwyr Gwasanaeth eu polisïau gwrthdaro eu hunain ar waith.

### Russell Investments

Bu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn trafod gwrthdaro buddiannau posibl a allai fod wedi codi dros y flwyddyn fel stiwardiaid cyfalaf. Fel rheolwyr buddsoddi, cadarnhaodd Russell y gallai fod ganddynt wrthdaro buddiannau strwythurol sy'n hysbys ac y mae'n rhaid eu rheoli, megis cael eu talu yn seiliedig ar lefelau asedau dan reolaeth (AUM).

Gan ei fod yn ymwneud yn benodol â Phartneriaeth Pensiwn Cymru, mae Russell bob amser wedi sicrhau fod unrhyw wrthdaro buddiannau posibl yn cael ei reoli'n effeithiol, yn unol a'r Côd Ymddygiad Byd-eang. Fel rhan o hyn mae gan Russell strwythur ffioedd cost a mwy ei le, sy'n caniatáu i arbedion cost sylfaenol dros amser gael eu trosglwyddo'n ôl i'r Bartneriaeth. Mae Russell yn nodi hefyd nad ydynt yn rhedeg unrhyw arian yn fewnol ar gyfer y Bartneriaeth, sy'n cael gwared â ffynhonnell gwrthdaro posibl.

Mae Russell yn rheoli gwrthdaro buddiannau yn unol â'r gofynion rheoleiddio ac yn ddarostyngedig i'r Polisi Gwrthdaro Buddiannau.

Ni nodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau o ran Partneriaeth Pensiwn Cymru dros y flwyddyn adrodd hon.

## Robeco

Mae Polisi Stiwardiaeth Robeco yn amlinellu eu dull o adnabod a rheoli gwrthdaro buddiannau. Mae'r dull hwn yn seiliedig ar 'Weithdrefn Gwrthdaro Buddiannau' Robeco a'r 'Rheoliadau ynghylch Trafodion Buddsoddi Preifat'. Enghreifftiau o wrthdaro buddiannau a allai godi yn gysylltiedig â gweithgareddau stiwardiaeth Robeco yw:

- Cwmni sy'n cael ei ddewis ar gyfer ymgysylltu neu sy'n gysylltiedig â'i riant gwmni neu is-gwmnïau cysylltiedig
- Mae gan Robeco hawliau pleidleisio mewn cwmni sy'n gysylltiedig â'i riant gwmni neu is-gwmnïau cysylltiedig.
- Mae gwahanol gleientiaid yn ffafrio gwahanol ffyrdd o ymgysylltu.

Rhag ofn y gallai perthynas fusnes fygwth gwrthrychedd neu natur gweithgareddau stiwardiaeth, ymgynghorir ag adran gydymffurfio Robeco. Os oes angen dilyn gweithgareddau Pleidleisio ac Ymgysylltu ar ôl ymgynghori ag adran gydymffurfio Robeco, caiff gwahanol randdeiliaid eu hysbysu gan gynnwys Pwyllgor Gwaith Robeco a Phartneriaeth Pensiwn Cymru.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, ni nodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau.

## Hymans Robertson

Mae gan Hymans Robertson bolisi gorfodol ar gyfer rheoli gwrthdaro buddiannau ar draws holl gwmnïau'r grŵp y mae disgwyl i'w staff ei ddilyn. Gall gwrthdaro buddiannau godi pan gyflogir Hymans Robertson i ddarparu cyngor buddsoddi i un o'r Awdurdodau Cyfansoddol yng Nghymru, wrth hefyd ddarparu cyngor i Bartneriaeth Pensiwn Cymru ar yr un pryd.

Mae nifer o berthnasoedd ymgynghorol o'r fath eisoes yn bodoli ac maent wedi'u datgelu i bob parti. Rheolir y gwrthdaro yn barhaus trwy sicrhau nad yw'r timau sy'n cynghori Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gyfrifol am y cyngor parhaus a roddir i Awdurdodau Cyfansoddol unigol. Pan roddir unrhyw gyfarwyddiadau newydd, mae Hymans Robertson wedi rhoi gwybod i Bartneriaeth Pensiwn Cymru a'r parti perthnasol am y gwrthdaro buddiannau posib.

Yn ystod y flwyddyn amlinellodd Hymans Robertson Gynllun Rheoli Gwrthdaro Buddiannau yn benodol i sicrhau bod y Bartneriaeth yn ymwybodol o'r gwasanaethau y mae Hymans yn eu darparu i unrhyw un o Gronfeydd unigol Cymru, gan gynnwys cwmpas y gwasanaethau a'r ymgynghorydd sy'n ymwneud â rhoi cyngor. Dros y flwyddyn, darparwyd cyngor (yn barhaus ac ar sail ad hoc) i bump o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol. Parhaodd y timau a oedd yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau i bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol ar wahân i'r tîm a oedd yn gweithio gyda'r Bartneriaeth, er bod un aelod o dîm y Bartneriaeth yn rhan o'r tîm cymorth ar gyfer prosiect buddsoddi cyfrifol ad-hoc. Ni welwyd bod unrhyw wrthdaro yn codi yn y rhinwedd honno.



# POLISÏAU, MONITRO AC ADOLYGU

## Ein fframwaith polisi

Mae gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru nifer o bolisïau sy'n rheoli'r ffordd yr ydym yn gweithredu Is-gronfeydd ac yn ymarfer stiwardiaeth dros ein hasedau.  O bwysigrwydd arbennig i'n hymdrechion stiwardiaeth y mae'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol, y Polisi Hinsawdd a'r Polisi Stiwardiaeth.

## Adolygu a diweddaru ein polisïau

Rydym yn adolygu ein polisïau bob blwyddyn, gan gynnal yr adolygiad diweddaraf ym mis Mawrth 2024 (gyda chymeradwyaeth derfynol yn dilyn diwedd y flwyddyn), a symud i ddull lle mae'r tri pholisi bellach yn cael eu hadolygu ar yr un pryd. Yn gyffredinol, diweddarwyd y tri pholisi i fod yn gyson yn eu hiaith a'u diffiniadau, ac ychwanegwyd cydnabyddiaeth o raglenni marchnad breifat y Bartneriaeth at bob un o'r tri hefyd. Caiff y newidiadau mwyaf arwyddocaol i bob polisi penodol eu hamlinellu isod.

### Polisi Buddsoddi Cyfrifol

#### Natur

Gwnaethom gydnabod colled natur yn benodol fel risg systemig, gan dynnu sylw at bwysigrwydd gwasanaethau ecosystemau a chydnerthedd natur fel elfennau hanfodol i liniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo. Roedd y newid hwn yn dilyn gwaith a ddatblygwyd gan y Bartneriaeth ar risg natur dros y flwyddyn, gan gynnwys yr archwiliad o ddatgoedwigo a wnaed gan ein RISG a'n deialog barhaus gyda'r elusen Maint Cymru. Bydd y risg i fioamrywiaeth yn cael ei monitro a'i hadrodd cyn belled ag y bydd y data sydd ar gael yn caniatáu hynny, yn unol ag argymhellion gan Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan.

#### Stiwardiaeth

Gwnaethom gysoni adran stiwardiaeth ein Polisi Buddsoddi Cyfrifol â'n Polisi Stiwardiaeth manylach. Roedd hyn yn cynnwys cydnabod ein hystyriaeth o rybuddion pleidleisio LAPFF a nodi'n fanylach ein disgwyliadau gan ddarparwyr gwasanaethau.

#### Benthyca gwarannau

Gwnaethom ddiweddaru ein polisi ar fenthyca stoc yn dilyn gweithredu'r gwasanaeth adalw dirprwyol ar yr Is-gronfeydd ecwiti hynny o ran cwmpas ar gyfer benthyca stoc (gan nodi na chaniateir benthyca stoc ar yr Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy). Mae'r gwasanaeth adalw dirprwyol yn caniatáu i'r Bartneriaeth gymhwyso ei hawliau pleidleisio yn llawn trwy adalw'r holl stoc ar fenthyg, cyn belled ag y bo modd, cyn unrhyw gyfarfodydd cyffredinol lle gellir arfer hawliau pleidleisio.

### Polisi Hinsawdd

Newidiwyd enw'r polisi o 'Polisi Risg Hinsawdd' i 'Polisi Hinsawdd', gan gydnabod mai un rhan yn unig o'r her hinsawdd yw risg. Mae'r polisi nawr hefyd yn rhoi pwyslais ar gyfleoedd buddsoddi, yn enwedig atebion hinsawdd.

#### Credoau

Roedd y Bartneriaeth yn cydnabod yn benodol bwysigrwydd pontio teg mewn ymdrechion i gyrraedd sero net byd-eang o fewn ei chredoau buddsoddi. Mae'n anochel y bydd pontio o'r fath yn golygu newid amlwg mewn systemau, gan gynnwys ynni, wrth i ni symud i ffwrdd o economi fyd-eang sy'n dibynnu ar danwydd ffosil yn gyffredinol. Mae'r Bartneriaeth yn credu y dylai'r pontio, cyn belled ag y bo modd, sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei adael ar ôl.

#### Fframwaith hinsawdd

Un o argymhellion Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan oedd yr awydd i hwyluso mwy o gonsensws ynghylch hinsawdd, gan gynnwys wrth sefydlu tacsonomeg gyffredin a dealltwriaeth ynghylch hinsawdd, ac fel sail ar gyfer gosod targedau hinsawdd. Y meddwl y tu ôl i hyn yw y bydd yn darparu cysondeb ar draws pob un o'r wyth cronfa bartner yng Nghymru, yn ogystal ag ar lefel y Gronfa Gyfunol, o ran datblygu polisi, datblygu cynnyrch yn y dyfodol, datblygu cynnyrch, ac wrth fonitro ac adrodd. Mae'r fframwaith hinsawdd hefyd yn sail i'r rhestr sy'n canolbwyntio ar yr hinsawdd, cwmnïau (ar draws daliadau ecwiti gweithredol a goddefol, yn y lle cyntaf) lle bydd yna graffu penodol ar stiwardiaeth. Mae'r rhestr yn cynnwys stociau o fewn y sectorau hynny yr effeithir arnynt yn sylweddol (neu'r rheiny sy'n ariannu rhai o'r fath) lle mae'r risg neu'r potensial mwyaf ar gyfer newid yn yr hinsawdd. Bydd hyn yn helpu'r Bartneriaeth: i gynnal goruchwyliaeth ar arferion pleidleisio y dyroddwyr hynny; i graffu ymhellach ar weithgarwch ymgysylltu a wneir gyda'r dyroddwyr hynny; ac asesu (yn barhaus) y canlyniadau a gyflawnir.

## Polisi Stiwardiaeth

### Ymgysylltu

Yn ystod adolygiad eleni ychwanegwyd adran ymgysylltu newydd sy'n cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu wrth lunio ymddygiadau corfforaethol a'i statws fel un o gyfrifoldebau (a buddion) perchnogaeth weithredol.

### Uwchgyfeirio

O fewn y Polisi Stiwardiaeth wedi'i ddiweddaru, rydym yn dogfennu ein strategaeth uwchgyfeirio, a ddatblygwyd mewn cydweithrediad agos â Hymans Robertson, Russell Investments a Robeco.

### Pleidleisio

Mae Polisi Stiwardiaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymgorffori Polisi Pleidleisio trwy Ddirprwy Mewnol Robeco (sydd wedi'i gynnwys ym Mholisi Stiwardiaeth Robeco) yn uniongyrchol, gan y bernir bod hyn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â disgwyliadau'r Bartneriaeth ei hun. Gan RISG y mae'r cyfrifoldeb am adolygu newidiadau i Bolisi Pleidleisio trwy Ddirprwy Mewnol Robeco, gydag unrhyw bryder o bwys yn cael ei chyfathrebu i'r Gweithgor Swyddogion a'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu i'w hystyried lle bo hynny'n briodol.

Cwblhaodd y RISG adolygiad o ddiweddariad Rhagfyr 2023 i Bolisi Pleidleisio trwy Ddirprwy Robeco, lle gwnaethom nodi bach iawn o newidiadau. Gwnaed un newid nodedig i'r polisi ar 'reolaeth amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd', lle gwnaed ychwanegiad yn gosod disgwyliad i gwmnïau roi'r gorau i ehangu capasiti glo thermal. Mae'r ychwanegiad hefyd yn gosod disgwyliad penodol i sefydliadau ariannol ddatblygu strategaethau pontio cadarn (yn unol ag arfer gorau'r sector). Roedd hyn yn cynrychioli datblygiad i'w groesawu ar bleidleisio ynghylch yr hinsawdd sy'n cryfhau Thema Stiwardiaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru Canolbwyntio ar Sero Net.

Roedd y RISG o'r farn bod hyn a'r newidiadau eraill yn cyd-fynd â'r disgwyl, gyda'r newidiadau wedyn yn berthnasol i Bolisi Pleidleisio Partneriaeth Pensiwn Cymru o ddechrau 2024.

## Buddsoddiadau goddefol: stiwardiaeth

Fel rhan o'r adolygiad o fuddsoddiadau goddefol Partneriaeth Pensiwn Cymru, gan nodi stiwardiaeth fel maes o ddatblygiad angenrheidiol, cynhaliodd Ymgynghorydd Goruchwyliaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru adolygiad o Bolisi Stiwardiaeth cyfredol BlackRock. Roedd y Bartneriaeth o'r farn bod y newidiadau mewn lleoliad ac iaith yn rhai cynnil a nododd ei bod yn parhau'n debygol y byddai'r canlyniadau pleidleisio ar fuddsoddiadau goddefol yn parhau i fod yn unol â'r rheiny a brofwyd yn 2023. Ysgogodd yr adolygiad ddeialog barhaus gyda BlackRock ar gymhwyso Dewis Pleidleisio ar draws y cronfeydd goddefol ecwiti a newidiadau posibl i'r ymagwedd tuag at stiwardiaeth. Mae'r ddeialog hon wedi parhau yn dilyn diwedd y flwyddyn ac mae'r Bartneriaeth yn gweithio tuag at ymestyn ei pholisi pleidleisio ar draws asedau goddefol.

# Monitro cydymffurfiaeth â'n polisïau

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn monitro cydymffurfiaeth â'i pholisïau allweddol bob blwyddyn. Gan weithio gyda Hymans Robertson, yr Ymgynghorydd Goruchwylio, adolygodd Partneriaeth Pensiwn Cymru ei gydymffurfiaeth â'i ymrwymiadau yn y Polisïau Buddsoddi Cyfrifol a Hinsawdd yn ystod y flwyddyn. Cyhoeddodd Partneriaeth Pensiwn Cymru ganlyniad yr adolygiad hwn, gyda chrynodeb o'r asesiadau wedi'i gynnwys fel Atodiad 2. Rydym yn cydnabod y gallwn barhau i wella ein prosesau ein hunain a'r modd yr ydym yn gwasanaethu ein holl randdeiliaid, ac y bydd y broses hon o adolygu a thryloywder parhaus yn parhau i wella ein stiwardiaeth barhaus.

Wrth dynnu sylw at feysydd lle'r oedd cynnydd wedi'i wneud a'r camau a gymerwyd - mae'r manylion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn - nododd yr adolygiadau hefyd rai meysydd lle'r oedd angen gwneud gwaith pellach:

- **Hwyluso trafodaethau ynghylch nod hinsawdd cyffredin:** Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan oedd y cam cyntaf yn y broses hon. Mae eisoes wedi hwyluso trafodaethau ynghylch nod hinsawdd cyffredin y mae'r Bartneriaeth yn gobeithio ei ddatblygu ymhellach dros 2024/25, gyda'r fframwaith hinsawdd yn helpu i hwyluso hyn.
- **Datblygiad yr Is-gronfeydd incwm sefydlog:** un maes ffocws ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru yn y dyfodol fydd datblygu ei chynigion incwm sefydlog mewn modd cynaliadwy. Dechreuodd y gwaith gyda Darparwr Datrysiadau Rheoli Buddsoddiadau'r Bartneriaeth ar hyn, yr ydym yn gobeithio ei ddatblygu dros 2024.
- **Datblygiad y mandadau goddefol:** Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar ddeall sut y gallai Partneriaeth Pensiwn Cymru ddatblygu ei dyraniadau goddefol. Gofynnwyd am fewnbwn cychwynnol gan Awdurdodau Cyfansoddol i weld a yw'r cynigion presennol yn bodloni disgwyliadau Buddsoddi Cyfrifol y Bartneriaeth a sut y gellir datblygu'r mandadau goddefol lle nad yw'r disgwyliadau'n cael eu bodloni.
- **Adeiladu fframwaith ar gyfer rhaglenni buddsoddi'r farchnad breifat:** go ystyried lansio rhaglenni buddsoddi marchnad breifat Partneriaeth Pensiwn Cymru, mae'r Bartneriaeth wedi datblygu fframwaith ar gyfer monitro ac adrodd gan reolwyr.

## Sicrhau ein prosesau

Fel Ymgynghorydd Goruchwylio, mae Hymans Robertson yn cynnal adolygiadau cyfnodol o'r gwaith a wneir gan Russell, Waystone a Robeco, gan felly roi sicrwydd parhaus i Bartneriaeth Pensiwn Cymru. O ystyried natur fanwl a'r cyfyngiadau amser angenrheidiol, yn ogystal â'r diffyg adnoddau mewnol sydd ar gael i gynnal yr adolygiadau hyn, mae angen adnoddau allanol i ddarparu'r swyddogaeth hon, swyddogaeth sy'n caniatáu i PPC sicrhau bod ei Ddarparwyr Gwasanaeth yn cyflawni amcanion.

### Adolygu gweithgarwch stiwardiaeth

Er mwyn helpu i adolygu'r gweithgarwch stiwardiaeth a wneir ar ran PPC, ac i sicrhau bod meysydd ffocws yn bodloni nodau stiwardiaeth y Gronfa, mae Hymans Robertson yn darparu adroddiadau chwarterol ar ei weithgaredd Buddsoddi Cyfrifol gan Is-Gronfa. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o'r gwaith a wnaed gan Robeco dros y chwarter, yn ogystal ag unrhyw weithgarwch ymgysylltu ychwanegol gan Russell, gyda manylion hefyd yn cael eu darparu ar waith stiwardiaeth LAPFF.

### Adolygiadau Is-Gronfa

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd adolygiadau o dair o'r Is-gronfeydd (Marchnadoedd Datblygol, Credyd Aml-asedau, Bondiau Elw Absoliwt). At ei gilydd roedd y canfyddiadau'n cyd-fynd â'r disgwyliadau, ond awgrymwyd nifer o ddilyniannau. Er enghraifft: mwy o dryloywder o amgylch y troshaenau (gweithredu'r portffolio uwch, y mesurau diogelu arian a'r troshaen datgarboneiddio); datblygu'r Is-gronfeydd incwm sefydlog yn gynaliadwy (lle mae hynny'n ymarferol); ac wrth weithio gyda'r RISG i ddatblygu prosesau ar gyfer adolygu gweithgarwch stiwardiaeth. Mae'r holl feysydd hyn eisoes yn symud yn eu blaenau.



# EIN BUDDSODDIADAU

Rôl Partneriaeth Pensiwn Cymru yw hwyluso a darparu platfform cyfuno buddsoddiadau er mwyn gallu gweithredu buddiannau'r Awdurdodau Cyfansoddol. Mae'r holl Awdurdodau Cyfansoddol yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, trefniant pensiwn agored â buddion wedi'u diffinio sydd â gorwelion buddsoddi hirdymor. Tra bod y buddion sylfaenol a ddarperir gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gyffredin i bawb, mae pob Awdurdod Cyfansoddol yn parhau i fod yn gyfrifol am ddatblygu strategaeth, gan roi ystyriaeth i'w polisïau eu hunain, eu sefyllfa ariannol a'u haelodaeth waelodol.

Felly mae gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru y dasg o ddarparu a rheoli cyfryngau buddsoddi y gall yr Awdurdodau Cyfansoddol weithredu eu strategaeth ddewisol trwyddynt.

## Asedau dan reolaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru

Ar ddiwedd mis Mawrth 2024, roedd 10 Is-gronfa gyfunol weithredol a thair rhaglen Marchnad Breifat, gyda chyfran yr asedau cyfunol yn parhau i fod tua 10% (gan gynnwys buddsoddiadau goddefol). Mae'r ystod o Is-gronfeydd a gynigir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru yn rhoi'r cyfleoedd buddsoddi i'r Awdurdodau Cyfansoddol fodloni eu gofynion unigol. Mae pob un o Gronfeydd Cymru yn buddsoddi mewn o leiaf dwy Is-gronfa weithredol, gydag un Gronfa yn buddsoddi mewn cymaint â saith. Mae parhau i ddatblygu Is-gronfeydd yn rhan allweddol o gynllun gwaith Partneriaeth Pensiwn Cymru.

| Cyfunol weithredol | Awdurdodau Cyfansoddol sy'n cymryd rhan | Rheolwyr gwaelodol | Cyfanswm £m 2023/24 |
|---|---|---|---|
| Ecwiti: Marchnadoedd Datblygol | 4 | 6 | £259.4 |
| Ecwiti: Twf Byd-eang | 5 | 3 | £3,585.7 |
| Ecwiti: Cyfleoedd Byd-eang | 5 | 8 | £3,286.4 |
| Ecwiti: Cyfleoedd y DU | 2 | 5 | £743.5 |
| Ecwiti: Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy | 8 | 4 | £1,570.4 |
| Incwm Gosod: Bond Elw Absoliwt | 3 | 3 | £573.0 |
| Incwm Gosod: Credyd Byd-eang | 5 | 4 | £1,033.7 |
| Incwm Gosod: Llywodraeth Fyd-eang | 2 | 2 | £488.8 |
| Incwm Gosod: Credyd Aml-asedau | 5 | 5 | £732.4 |
| Incwm Gosod: Credyd Sterling | 1 | 1 | £707.8 |
| **Cyfunol goddefol** | 7 | 1 | £5,200.0 |
| **Marchnadoedd preifat** | | | |
| Seilwaith | 7 | 4 | 187 |
| Credyd Preifat | 7 | 1 | 64 |
| Ecwiti Preifat | 5 | 1 | 47 |
| **Cyfanswm** | | | **£18,479** |

**Regional distribution of actively** managed assets




Ffynhonnell: Waystone; Russell Investments

# Ehangu'r ystod o Is-gronfeydd

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi ymrwymo i sicrhau ei bod yn bodloni gofynion datblygol ei rhanddeiliaid trwy sicrhau bod ystod o Is-gronfeydd ar gael i bob Awdurdod Cyfansoddol gwaelodol o fewn y Gronfa Gyfunol. Mae'r dewis sydd ar gael wedi ehangu o'r ddwy Is-gronfa ecwiti byd-eang yn 2019, i 10 o Is-gronfeydd (ar gyfer marchnadoedd rhestredig) a thair rhaglen marchnad breifat, sydd gyda'i gilydd yn rhychwantu dosbarthiadau asedau a daearyddiaeth.

## Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy

Yn ystod haf 2023 lansiwyd yr Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy, lle mae pob un o'n hwyth cronfa bartner wedi buddsoddi. Mae'r Is-gronfa ei hun yn un o'r cronfeydd mwyaf o'i bath yn y DU (asedau dan reolaeth yn £1.6bn, ar 30 Mehefin 2024) a dyma'r tro cyntaf i bob un o wyth Cronfa waelodol Cymru fuddsoddi mewn un Is-gronfa. Felly roedd lansio'r Is-gronfa ym mis Gorffennaf 2023 yn cadarnhau'r gefnogaeth eang ac ymroddedig gan yr holl gronfeydd partner, yn dilyn cydweithio helaeth i'w datblygu.

Mae gan yr Is-gronfa darged sero net penodol, sef bod 100% o asedau yn sero net neu'n cyd-fynd â sero net erbyn 2040, gyda'r nod eilaidd o leihau allyriadau CO2e 50% erbyn 2030. Ymgorfforwyd nifer o waharddiadau yn ymwneud â thanwydd ffosil (glo thermol, tywod olew, olew a nwy yr Arctig, ynni siâl) yn nyluniad yr Is-Gronfa, yn ogystal â gwaharddiadau eraill (arfau dadleuol, gamblo, adloniant oedolion, olew palmwydd, tybaco).

## Marchnadoedd preifat

Lansiodd y Bartneriaeth nifer o raglenni marchnad breifat dros y flwyddyn, gan gynnwys: seilwaith (gydag opsiynau agored a chaeedig ar gael); ecwiti preifat; dyled breifat. Aeth gwaith ymlaen hefyd ar raglen eiddo tirol Partneriaeth Pensiwn Cymru, gyda chontractau'n cael eu dyfarnu yn dilyn diwedd y flwyddyn.

| Dosbarth asedau | Apwyntiadau rheolwr / dyrannwr |
|---|---|
| Ecwiti Preifat | Schroders |
| Seilwaith | **Rhaglen Ben-gaead: GCM Grosvenor:** GCM Grosvenor<br>**Rhaglen Ben-agored:** Cronfa Seilwaith Byd-eang CBRE; Cronfa Seilwaith Byd-eang IFM; Octopus Renewables Infrastructure SCSp |
| Dyled Breifat | Russell Investments |
| Eiddo tirol | **Eiddo tirol craidd y DU:** Schroders<br>**Eiddo tirol rhyngwladol:** CBRE<br>**Eiddo tirol lleol/effaith:** Schroders |

# Datblygu ein His-gronfeydd presennol

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru, ar y cyd â'i darparwyr gwasanaethau, yn monitro ei chyfryngau buddsoddi yn barhaus i sicrhau eu bod yn bodloni'r disgwyliadau. Fel perchnogion gweithredol, efallai y byddwn yn dod o hyd i gyfleoedd i ddatblygu ein his-gronfeydd i ddiwallu ein hanghenion yn well. O fewn rheolaeth barhaus yr Is-gronfeydd, mae Russell wedi dirprwyo awdurdod i addasu'r grŵp o reolwyr ac mae wedi gwneud newidiadau o ran rheolwyr ar draws tair o'r Is-gronfeydd dros y flwyddyn. Mae gan y Bartneriaeth raglen fonitro ffurfiol i werthuso perfformiad yr Is-gronfeydd ac effaith gweithgaredd dethol rheolwyr yn erbyn disgwyliadau, gan gynnwys metrigau cynaliadwyedd.

**Astudiaeth achos: Ychwanegu Robeco at yr Is-gronfa Credyd Byd-eang**

Gwnaeth Russell, mewn ymgynghoriad â Phartneriaeth Pensiwn Cymru, newid rheolwr yn yr Is-gronfa Credyd Byd-eang dros y flwyddyn, gyda'r hen fandad yn cael ei ddisodli gan un a reolir gan Robeco. Roedd y newid yn seiliedig ar ddisgwyliadau blaengar cymharol ac argyhoeddiad uwch yn y rheolwr, ac adlewyrchiad o hyn oedd bod Robeco yn sgorio'r sgôr uchaf bosibl o dan fframwaith sgorio rheolwyr Russell. Mae'r sgôr yn seiliedig ar gryfder Robeco mewn buddsoddi cynaliadwy, yn ogystal â'i threftadaeth credyd gref. Mae ymchwil Russell yn canfod bod Robeco yn arweinydd mewn credyd aml-ffactor a buddsoddi bond / perchnogaeth weithredol ESG/Nodau Datblygu Cynaliadwy. Dylai hyn fod o fudd i'r Is-gronfa Credyd Byd-eang, o ystyried y cydweithrediad agos rhwng tîm credyd Robeco a'r Ganolfan Arbenigedd Buddsoddi Cynaliadwy fewnol.

# EIN DULL BUDDSODDI CYFRIFOL

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru o'r farn bod integreiddio ffactorau ESG, gan gynnwys ystyried risgiau a chyfleoedd, mewn prosesau buddsoddi yn rhag-amod ar gyfer unrhyw strategaeth o ystyried y posibilrwydd o golli arian. Wrth i asedau cyfunol Partneriaeth Pensiwn Cymru gael eu rheoli'n allanol, mae'r Bartneriaeth yn gosod disgwyliadau ar sut y dylid rheoli asedau gyda Russell a rheolwyr gwaelodol eraill i sicrhau bod safbwyntiau Buddsoddi Cyfrifol, y modd y caiff materion ESG eu hintegreiddio, y dull o reoli risg a stiwardiaeth yn cyd-fynd â'i gilydd.




## Russell Investments

Mae Russell yn integreiddio ffactorau ESG yn ei broses fuddsoddi trwy werthuso rheolwyr buddsoddi a darparu datrysiadau buddsoddi perchnogol. Mae Russell yn defnyddio mewnbynnau meintiol ac ansoddol yn seiliedig ar dri bloc adeiladu – arolwg blynyddol y rheolwyr ar yr egwyddorion ESG; diwydrwydd dyladwy o ran egwyddorion ESG yn benodol; a data a dadansoddi – asesu ymwybyddiaeth y rheolwyr o egwyddorion ESG a'r modd yr oeddent yn eu hintegreiddio. Yna defnyddir y mewnbynnau hyn i bennu safle, sy'n cyfrannu at safle cyffredinol y rheolwr.

Ar gyfer cronfeydd cynaliadwy, megis yr Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy a lansiwyd dros y flwyddyn, ychwanegir haen ychwanegol o werthuso, trwy gyfrwng fframwaith Bwriad-Proses-Canlyniad (I-P-O) Russell:

- Bwriad: mae bwriad y cynnyrch yn adlewyrchu amcanion cynaliadwy
- Proses: mae proses buddsoddi cynaliadwy yn cael ei dangos trwy integreiddio arferion ESG a Buddsoddi Cyfrifol yn gyson ac yn effeithiol
- Canlyniad: mae canlyniad cynaliadwy neu ESG yn cael ei ddangos trwy nodweddion cynnyrch neu fetrigau

Mae'r fethodoleg sgorio yn cynnwys pedair cydran:

- Ymrwymiad i faterion ESG: Mae adnoddau ESG yn gadarn ac yn cyd-fynd â'r broses fuddsoddi. Mae gan unigolion sy'n gyfrifol am faterion ESG brofiad perthnasol ac maent yn fedrus. Mae amrywiaeth o ffynonellau ac offer data o ansawdd uchel ar gael i'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau buddsoddi.
- Ystyriaeth i faterion ESG: mae ymwybyddiaeth gref o effaith risg ac ac elw ESG yn amlwg. Mae'r ehangder a'r dyfnder persbectif yn well na chymheiriaid. Mae'r ddealltwriaeth yn deillio o ymchwil cynradd ac yn cael ei gwahaniaethu.
- Gweithredu materion ESG: Caiff dealltwriaeth o ffactorau ESG ei throsi'n effeithiol a chyson wrth bennu safle portffolios. Mae'r rheolwr yn dangos yn glir sut y mae safle'r portffolios yn adlewyrchu'r modd y caiff y gyrwyr risg ac elw ESG perthnasol eu rheoli.
- Active Ownership: Mae tryloywder, ansawdd a hyd yr ymgysylltu gyda chwmnïau y buddsoddir ynddynt ar faterion ESG yn rhagori'n gyson ar gronfeydd tebyg. Caiff mesuriadau llwyddiant eu datgan yn glir ac maent yn briodol. Mae canlyniadau Perchnogaeth Weithredol neu Asesiadau Effaith ar gael yn hwylus ac yn cael eu cofnodi. Lle bo'n berthnasol, ceisir gwneud defnydd gwybodus o brocsïau.

| 5 | 4 | 3 | 2 | 1 |
|---|---|---|---|---|

- The manager demonstrates **strong awareness** of the potential risk and return impacts of ESG issues on individual holdings and the portfolio structure
- The manager can **clearly demonstrate** how portfolio positioning reflects the management of relevant ESG risks
- The manager can **clearly demonstrate** how relevant ESG exposures can add value

- The manager **does not demonstrate awareness** of potential risks and return impacts of ESG issues on portfolio holdings
- **Meaningful discrepancies** between target ESG guidelines and portfolio holdings
- Manager's perspective and analytical **inputs on ESG issues lack rigour**

Mae Russell yn adrodd ei sgoriau ESG ar gyfer pob un o reolwyr yr is-gronfeydd gwaelodol i'r Bartneriaeth, gyda'r rhain yn cael eu crynhoi isod o'u cymharu â sgoriau yn 2023.

**Sgoriau ESG Russell ar gyfer rheolwyr gwaelodol fel yr oeddent ar 31.03.24 o gymharu â 31.03.23**




Ffynhonnell: Russell Investments; i nodi, nid oedd y ffigurau a ddarparwyd ar gyfer ein cyflwyniad diwethaf yn gywir; mae'r cymariaethau wedi'u diweddaru i adlewyrchu hyn

**Astudiaeth achos: newid rheolwr yn Is-gronfa Cyfleoedd y**

Yn ein cyflwyniad diwethaf, gwnaethom dynnu sylw at un rheolwr yr oeddem yn parhau i'w fonitro, o ystyried ei fod yn un o'r rheolwyr a oedd â'r sgôr isaf yn ein His-gronfeydd. Canfu Russell fod y rheolwr yn is na'r cyfartaledd o gymharu â chymheiriaid y DU o ran ymgorffori egwyddorion ESG yn y broses o reoli buddsoddiadau ac roedd wedi rhoi'r rheolwr ar wyliadwriaeth. Eleni cafodd pryderon eu gwaethygu gan aflonyddwch sefydliadol ar y tîm rheolwyr, gan annog ailfeddwl am ddyraniadau i'r strategaeth. Disodlwyd y rheolwr gan reolwr arall a oedd â ffocws ar y DU, lle roedd gan Russell argyhoeddiad mwy cadarnhaol. Mae'r rheolwr newydd yn integreiddio materion ESG i ymchwil sylfaenol y tîm, gan roi golwg gadarnhaol gyffredinol ar ymrwymiad y rheolwr.

## Ymgysylltu â rheolwyr

Mae ymgysylltu â'n rheolwyr penodedig ynghylch eu prosesau a, lle bo angen, asesu penodeion gwaelodol, yn elfen barhaus o'n trefn lywodraethu, gan sicrhau ein bod yn cadw hyder yn y rheiny sy'n rheoli ein hasedau.

Nododd Partneriaeth Pensiwn Cymru fod yna newid cadarnhaol i sgôr ESG un rheolwr o fewn yr Is-gronfa Cyfleoedd Byd-eang yn ystod y flwyddyn adrodd. Yn flaenorol roedd Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi cytuno â Russell o ran bod yn gysurus â chynnwys rheolwr â sgôr gymharol isel yn yr Is-gronfa, o ystyried eu bod yn rhedeg proses feintiol (nifer uchel o ddaliadau, trosiant sylweddol), gyda gyrwyr risg ac elw ESG felly at ei gilydd yn brin o fateroldeb mewn prosesau o'r fath. Serch hynny, roedd penderfyniad y rheolwr i ymgorffori arwyddion sy'n gysylltiedig ag ESG yn y model cyffredinol yn cael ei ystyried yn gam cadarnhaol, gyda Russell yn uwchraddio safle ESG y strategaeth o ganlyniad. Mae Russell yn nodi bod mewnwelediadau sy'n gysylltiedig â ffactorau ESG yn cael eu hadlewyrchu wrth leoli dim ond mewn perthynas â ffactorau alffa'r rheolwr sy'n gysylltiedig â llywodraethu a ffactorau risg ESG eraill.

## Mae RISG yn ymgymryd â goruchwyliaeth a chraffu

Wrth weithredu model wedi'i allanoli, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gyfrifol am graffu'n uniongyrchol ar Ddarparwyr Gwasanaethau allweddol, ac mae Russell a Waystone wedyn yn gyfrifol am oruchwylio'n uniongyrchol y rheolwyr gwaelodol a gyflogir o fewn yr Is-gronfeydd. Caiff risgiau cynaliadwyedd o bwysigrwydd ariannol eu monitro gan Russell a Waystone yn barhaus, fel yn achos unrhyw risgiau eraill. Mae archwiliadau chwarterol yn cael eu cynnal gyda rheolwyr y portffolio gan gyfeirio at risgiau ESG. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn goruchwylio prosesau Russell ar stiwardiaeth ac integreiddio ffactorau ESG.

Un o rolau parhaus yr Ymgynghorydd Goruchwylio yw asesu rheolaeth yr Is-gronfeydd a phrofi'r prosesau a ddefnyddir. Wrth ymgymryd â'r ymarfer hwn, mae Hymans Robertson yn ymgymryd ag asesiad annibynnol o bob portffolio, gan dynnu sylw at feysydd cyfanredol ac unigol o risg i RISG. Caiff pob Is-gronfa ei hadolygu'n flynyddol, gydag o leiaf un adroddiad yn cael ei ddarparu ar o leiaf un Is-gronfa bob chwarter i sicrhau bod disgwyliadau buddsoddi Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cael eu bodloni.

Mae'r gwaith monitro yn cwmpasu: risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys tueddiadau mewn allyriadau carbon; risgiau sy'n gysylltiedig â ffactorau ESG, gan gynnwys dod i gysylltiad â materion dadleuol; ac mae'n tynnu sylw at gwmnïau unigol o fewn portffolios a allai fod yn briodol i'w trafod ymhellach.

### Datblygu ein gwaith craffu parhaus

Rydym wedi nodi'r angen i gynyddu ein dadansoddiad blaengar o'r hinsawdd yn yr adroddiadau, maes a amlygwyd yn ystod ein hadolygiadau polisi (Atodiad 2). Ar y cyd â datblygu ein rhestr sy'n canolbwyntio ar yr hinsawdd, rydym ar hyn o bryd yn gweithio i ddatblygu ein hadroddiadau rheolaidd i ymgorffori dadansoddiad manylach, mwy blaengar i helpu i ganolbwyntio ymdrechion stiwardiaeth y Bartneriaeth yn well. Rydym hefyd yn manteisio ar y cyfle hwn i gynyddu ein hasesiad o faterion blaenoriaeth eraill gan gynnwys natur a risgiau sy'n gysylltiedig â hawliau dynol. Rydym yn disgwyl i'r drefn adrodd a chraffu well hon gael ei gweithredu dros 2024/25. Byddwn yn parhau i adolygu a datblygu ein hadroddiadau yn unol ag adborth gan randdeiliaid.



**Astudiaeth achos: Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy: cwrdd â'r rheolwr**

Yn dilyn lansio'r Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy, trefnodd Russell ddiwrnod 'cwrdd â'r rheolwr', lle cyflwynodd pob un o'r pum rheolwr sylfaenol ar eu dull a'u mandad gwaelodol. Un thema gyffredin o ddiddordeb ar draws pob rheolwr oedd tarfu ar systemau a'r defnydd o dechnoleg a all greu effaith gadarnhaol, yn enwedig mewn meysydd megis ynni, gofal iechyd a thrafnidiaeth.

Credwn fod y digwyddiadau hyn yn bwysig er mwyn meithrin dealltwriaeth o fuddsoddiadau ar draws holl randdeiliaid Partneriaeth Pensiynau Cymru, gyda'r rheiny oedd yn bresennol yn cynnwys cynrychiolwyr o Bwyllgorau Pensiwn, Swyddogion ac Ymgynghorwyr. Wrth ganiatáu i randdeiliaid gwestiynu rheolwyr yn uniongyrchol, mae'r Bartneriaeth yn cael mewnwelediad i faterion o ddiddordeb neu bryder, gan felly allu gwella ein cyfathrebu.

## Darparwyr Gwasanaethau a stiwardiaeth

Er mwyn sicrhau bod gweithgareddau monitro ac ymgysylltu Darparwyr Gwasanaethau Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i fod yn unol â gweithgareddau'r Bartneriaeth, mae'r Bartneriaeth yn olrhain yr ymgysylltu â Russell, Robeco a BlackRock mewn Log Stiwardiaeth. Mae'r log hwn yn ystyried unrhyw farn neu bryderon sydd wedi'u codi gan aelodau neu randdeiliaid eraill ac a gyflwynwyd yn unrhyw un o'r cyfarfodydd rheolaidd (yn fwyaf arbennig RISG). Ymhlith y sgyrsiau dros y cyfnod adrodd yr oedd:

- **Robeco, LAPFF, Waystone, Northern Trust:** Cysylltodd LAPFF, ynghyd ag aelodau eraill, â Phartneriaeth Pensiwn Cymru ynghylch y cyfle i gyd-ffeilio cynnig cyfranddalwyr ar reoli risgiau dŵr yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf cwmni mwyngloddio byd-eang, yr ydym yn tynnu sylw ato yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Yn y lle cyntaf, cysylltodd Partneriaeth Pensiwn Cymru â Robeco i ddeall pa waith oedd wedi'i wneud i ddenu'r enw'n fwy cyffredinol ac i ddeall y potensial i Robeco gyd-ffeilio ar ran y Bartneriaeth. O ystyried diffyg cynefindra â'r broses gyd-ffeilio, nid oedd y Bartneriaeth yn gallu cefnogi'r cynnig cyfranddalwyr dan sylw. Fodd bynnag, roedd hyn yn ei gwneud yn glir bod angen i broses fod ar waith ar gyfer unrhyw gyfleoedd tebyg sy'n codi yn y dyfodol. Er enghraifft, mae LAPFF ar hyn o bryd yn ystyried cyfleoedd cyd-ffeilio ar: (1) lobïo datgeliadau (amrywiol gyhoeddwyr); (2) arferion stiwardiaeth dŵr. Felly, cychwynnodd Partneriaeth Pensiwn Cymru drafodaethau gyda Waystone ac Northern Trust yn fewnol, a phrofiad cronfeydd cyfunol eraill yn allanol, er mwyn hwyluso hyn. Bydd y Bartneriaeth yn adrodd ymhellach ar y broses yn ein cyflwyniad nesaf.
- **Robeco, Fidelity, LAPFF:** Cysylltodd WPP â'i Ddarparwyr Gwasanaeth i ddeall pryderon ynghylch sector cyfleustodau dŵr y DU, yn benodol ynghylch arferion llywodraethu a phryderon amgylcheddol. Rydym yn cymryd golwg fanylach ar ein hymrwymiadau yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.
- **Robeco, Russell, Waystone:** mae'r Cydbwyllgor wedi tynnu sylw at yr angen am fwy o adrodd ac olrhain ymrwymiadau. Mae hyn wedi arwain at drafodaethau gyda Robeco, Russell a Waystone am fwy o adrodd ar achosion ymgysylltu yn gyffredinol, yn ogystal ag wrth ddatblygu strategaeth uwchgyfeirio'r Bartneriaeth ei hun yn benodol ar gyfer achosion sy'n cynnwys torri normau byd-eang (rhywbeth yr ydym yn ei amlinellu yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn). Mae Robeco bellach yn gwneud archwiliad dwfn ar thema ymgysylltu benodol ym mhob Cyd-bwyllgor Llywodraethu. Mae'r adroddiadau risg hinsawdd ac ESG eisoes wedi'u datblygu i gynnwys mwy o wybodaeth am ymrwymiadau ar draws Darparwyr Gwasanaethau, a fydd yn cael eu mireinio ymhellach yn y fersiynau wedi'u diweddaru.

## Goruchwylio mewn marchnadoedd preifat

Fel rhan o'n Polisi Buddsoddi Cyfrifol, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn disgwyl i gymwysterau Buddsoddi Cyfrifol ei Reolwyr Buddsoddi gael eu hadolygu ac i hyn gael ei adrodd bob blwyddyn o leiaf. Ar gyfer yr Is-gronfeydd rhestredig, mae Russell a Waystone yn gwneud gwerthusiad parhaus o reolwyr trwy gydol y flwyddyn, gyda'r canfyddiadau hynny'n cael eu hadolygu a'u rhannu â Swyddogion. Ar gyfer rhaglenni'r farchnad breifat, a lansiwyd dros y flwyddyn ac nad ydynt yn cael eu goruchwylio gan Waystone, mae'r Bartneriaeth wedi ceisio sefydlu deialog barhaus gyda'r rheolwyr hyn, ac i sefydlu fframwaith ar gyfer yr adolygiad cyfnodol o bob rheolwr marchnad breifat. Mae'r fframwaith yn ymgorffori elfennau cyffredinol ar lefel endid, yn ogystal ag ymgorffori materion sy'n berthnasol i bob dosbarth asedau ac archwilio sut mae rheolwyr yn mynd i'r afael â meysydd sydd o ddiddordeb i'r Bartneriaeth: natur; newid yn yr hinsawdd; hawliau dynol. Cyflwynwyd y fframwaith hwn ar ôl diwedd y flwyddyn a disgwylir iddo lywio meddwl ar adroddiadau effaith.

**Astudiaeth achos: Octopus: mesur yr effaith mewn seilwaith**

Yn gyffredinol, mae dosbarthiadau asedau marchnad breifat ymhellach y tu ôl i farchnadoedd rhestredig o ran argaeledd data ESG, a all gyflwyno rhwystrau i fonitro a goruchwylio. Rydym yn croesawu'r ymagwedd y mae un o'n rheolwyr marchnad breifat, Octopus, yn ei chymryd at ei ddiwydrwydd dyladwy o fuddsoddiadau i gefnogi monitro a goruchwylio parhaus. Mae dull Octopus yn edrych yn gyfannol ar yr holl fuddsoddiadau trwy lensys 'Perfformiad, Planed, Pobl', gan ymgorffori'r fframwaith hwn yn y broses o fuddsoddi, monitro a rheoli asedau, ac adrodd. Mae'r rheolwr yn defnyddio'r tair colofn hyn fel sail ar gyfer ei fatrics sgorio ESG, sy'n sicrhau bod trothwy sgorio lleiafswm yn cael ei gyflawni cyn cymeradwyo unrhyw fuddsoddiad. Mae'r fframwaith wedyn yn caniatáu i Octopus fesur ac olrhain effaith ei fuddsoddiadau a gwneud argymhellion drwy'r pwyllgor buddsoddi.

For more details:

**Octopus Energy Generation**
**Engagement & Stewardship Policy**



# MYND I'R AFAEL Â RISGIAU SYSTEMIG

Mae dull buddsoddi Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cynnwys rheoli risg yn effeithiol, sydd yn ein barn ni yn rhan annatod o lywodraethu da. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod bod rheoli risg yn effeithiol – gan gynnwys strategaethau Buddsoddi Cyfrifol a lliniaru risg hinsawdd, ochr yn ochr ag ystyried a rheoli materion ESG ehangach – yn hanfodol ar gyfer sicrhau canlyniadau llwyddiannus i'n rhanddeiliaid. Mae dwy broses ar waith ar gyfer ystyried risg.

## Mae ein His-grŵp Risg yn fforwm allweddol ar gyfer nodi risgiau

Yn unol â'r Polisi Risg, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod, os cânt eu gadael heb eu rheoli, y gall risgiau effeithio ar allu'r Bartneriaeth (a'r Awdurdodau Cyfansoddol) i weithredu er budd pennaf ein rhanddeiliaid (a'r buddiolwyr), gyda llwyddiant y Bartneriaeth, i raddau, yn ddibynnol ar ein gallu i gydbwyso risg ac elw yn effeithiol. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru felly'n cydnabod bod yn rhaid i strategaeth risg gadarn fod ar waith er mwyn cyflawni ein prif amcanion, gydag Is-grŵp Risg pwrpasol wedi'i sefydlu i gynnal a gwerthuso Cofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru bob chwarter. Defnyddir y Gofrestr Risg i ddogfennu, rheoli a monitro risg trwy:

- Amlinellu prif risgiau a ffactorau Partneriaeth Pensiwn Cymru a allai gyfyngu ar ein gallu i gyflawni amcanion.
- Mesur difrifoldeb a thebygolrwydd y risg sy'n wynebu Partneriaeth Pensiwn Cymru.
- Crynhoi strategaethau rheoli risg Partneriaeth Pensiynau Cymru
- Monitro arwyddocâd parhaus y risgiau hyn, effeithiolrwydd strategaethau lliniaru risg presennol a'r gofyniad am fwy o strategaethau lliniaru risg

Mae gan yr Is-grŵp Risg rôl hanfodol wrth fynd ati i nodi'r risgiau presennol a'r rheiny a allai gael eu gwireddu yn y dyfodol, ac wrth asesu effeithiolrwydd mesurau lliniaru risg presennol – neu'r gofynion am fesurau ychwanegol o'r fath. Mae'r Is-grŵp Risg yn cyflwyno argymhellion, i'r Gweithgor Swyddogion, ar y camau y dylid eu cymryd i liniaru neu reoli risgiau ymhellach, ond nid yw'n gyfrifol am gyflawni'r camau a argymhellir.

## Ein Fframwaith Stiwardiaeth wrth adnabod risgiau a themâu sy'n dod i'r amlwg




Un ffordd yr ydym yn ceisio adnabod risg yw drwy ddefnyddio ein Fframwaith Stiwardiaeth, yr ydym yn ei amlinellu'n nes ymlaen yn yr adroddiad hwn. Mae cam cyntaf y broses hon yn hollbwysig, gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau i asesu meysydd risg sy'n dod i'r amlwg. Mae'r rhain yn cynnwys themâu sy'n deillio o fonitro parhaus; mewnbwn gan y gymuned fuddsoddi ehangach; ac ymchwil bwrpasol arall. Trwy rannu mewnbwn gyda, a cheisio adborth gan, y sylfaen ehangach o randdeiliaid Partneriaeth Pensiwn Cymru, bydd y Bartneriaeth yn casglu ystod eang o fewnbynnau a ffynonellau risg systemig posibl. Rhoddwyd y broses hon ar waith yn gynnar yn 2023 ac fe'i gweithredwyd yn ystod blwyddyn adrodd 2023/24.

# Newid yn yr Hinsawdd

Fel rhan o'r drefn fonitro barhaus, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn monitro ystod o wahanol fetrigau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys metrigau allyriadau. Mae'r tabl isod yn nodi'r newid mewn dwysedd carbon cyfartalog wedi'i bwysoli (WACI) dros 2023/24, gan nodi y bu gostyngiad cyffredinol ar draws yr holl Is-gronfeydd, er mai dim ond ychydig o fewn mandad y Marchnadoedd Datblygol. Rydym hefyd yn tynnu sylw at y gostyngiad amlwg yn y dwysedd carbon cyfartalog wedi'i bwysoli (WACI) ar gyfer Is-gronfa Cyfleoedd y DU, gan adlewyrchu gweithrediad y droshaen carbon isel..

| Is-gronfa | Dwysedd Carbon Cyfartalog wedi'i Bwysoli (gwerthiannau tCO2e/$m) | |
|---|---|---|
| | 31/03/2023 | 31/03/2024 |
| Cyfleoedd Byd-eang | 109.4 | 88.3 |
| Twf Byd-eang | 69.6 | 51.3 |
| Cyfleoedd y DU | 86.8 | 59.5 |
| Marchnadoedd Datblygol | 227.9 | 165.3 |
| Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy | N/A | 69.6 |
| Credyd Byd-eang | 247.8 | 203.6 |
| Credyd y DU | 78.5 | 33.8 |

Ffynhonnell: Hymans Robertson. Dim ond Is-gronfeydd lle mae'r data allyriadau yn cwmpasu o leiaf 70% a adroddir

### Fframwaith hinsawdd

Un o brif argymhellion Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan oedd datblygu fframwaith hinsawdd, a'i brif bwrpas yw sicrhau cysondeb mewn cyfathrebu, pennu polisïau, datblygu strategaeth ac adrodd ar draws Partneriaeth Pensiwn Cymru, a chan ei rhanddeiliaid. Wrth i'r Awdurdodau Cyfansoddol gwaelodol weithio i roi eu nodau hinsawdd ar waith, gan ei gwneud yn ofynnol i'r Bartneriaeth ddatblygu atebion buddsoddi sy'n cefnogi'r uchelgeisiau hyn yn uniongyrchol, sefydlwyd fframwaith a thacsinomeg hinsawdd cyffredin, a danategir gan bedair colofn graidd.

Mae'r fframwaith hwn eisoes wedi cefnogi gweithgareddau sydd wedi digwydd ers diwedd y flwyddyn, gan gynnwys datblygu'r buddsoddiadau goddefol, newidiadau i adroddiadau parhaus ac yn ein goruchwyliaeth ar reolwyr. Yn ei dro, disgwyliwn i hyn gefnogi ein dealltwriaeth barhaus o risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a'n hymateb iddynt.

**Egwyddorion a chredoau**
Datganiadau lefel uchel sy'n cyfleu barn gyfunol rhanddeiliaid Partneriaeth Pensiwn Cymru ac yn tywys gweithgarwch

**Nodau strategol**
Nodau hinsawdd sydd gyda'i gilydd yn adlewyrchu sefyllfa pob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol, a ymgorfforir yn y Polisi Hinsawdd. Gall hyn gynnwys ymrwymiadau sero net

**Nodweddion portffolio**
Priodoleddau'r portffolio y mae angen eu monitro a'u rheoli i sicrhau cysondeb (e.e. metrigau hinsawdd a natur); a adlewyrchir wrth fonitro ac adrodd

**Stiwardiaeth**
Bydd hyn yn llywio deialog â Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu a Rheolwyr Buddsoddi Partneriaeth Pensiwn Cymru, a bydd yn helpu i ffocysu stiwardiaeth hinsawdd

### Rhestr sydd â ffocws ar yr hinsawdd

Un o'r argymhellion a ddaeth allan o'r Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan oedd adeiladu rhestr o gwmnïau y gellir craffu arnynt yn haws o safbwynt yr hinsawdd, gan helpu yn ymdrechion stiwardiaeth hinsawdd Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae'r rhestr yn cynnwys y daliadau mwyaf arwyddocaol o safbwynt yr hinsawdd, ar draws y buddsoddiadau ecwiti rhestredig yn y lle cyntaf, ac mae'n gytbwys ar draws sectorau. Mae rhestr o'r fath yn helpu i ffocysu ymdrechion stiwardiaeth hinsawdd, yn ogystal â monitro ac adrodd, ac mae'n creu pwynt ffocws ar gyfer trafodaethau gyda rhanddeiliaid yn y dyfodol. Dechreuwyd ar y gwaith ar y rhestr hon dros y flwyddyn, gyda'r adroddiad monitro cyntaf yn cael ei gyhoeddi yn dilyn diwedd y flwyddyn er mwyn ei drafod gyda'r RISG. Byddwn yn adrodd ymhellach ar hyn yn ein cyflwyniad nesaf..

## Natur

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod bod colli natur yn risg systemig, gan nodi agweddau cydgysylltiedig newid hinsawdd, datgoedwigo a bioamrywiaeth. Er mwyn deall cysylltiad Partneriaeth Pensiwn Cymru â risg datgoedwigo yn y lle cyntaf, cynhaliodd y Bartneriaeth ddadansoddiad o amlygiad y Gronfa Gyfunol i risg o'r fath yn ei His-gronfeydd ecwiti gweithredol. Defnyddiodd y dadansoddiad ddata a gasglwyd o Forest 500, gan gynnwys y cwmnïau hynny yr ystyrir eu bod yn wynebu'r risg fwyaf o gyfrannu at ddatgoedwigo. Roedd y canfyddiadau'n dangos fod amlygiad mwyaf y Bartneriaeth mewn tri sector: Bwyd, Diod a Thybaco; Cynhyrchion Cartref a Phersonol; a Nwyddau Hanfodol.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, argymhellodd y dadansoddiad bod natur yn cael ei gynnwys yn fframwaith hinsawdd Partneriaeth Pensiwn Cymru, datblygu ymrwymiadau polisi ehangach i natur, ac ymgorffori ystyriaethau natur yng ngoruchwyliaeth stiwardiaeth y Bartneriaeth. Datblygwyd yr holl argymhellion hyn dros y flwyddyn, gyda dadansoddiad wedi'i ddiweddaru yn cael ei gynnal ar ddiwedd mis Mawrth 2024.

**Astudiaeth achos: ymgysylltu ynghylch amlygiad i ddatgoedwigo**

Cysylltodd Partneriaeth Pensiwn Cymru â'r sefydliad nid er elw Maint Cymru i drafod adroddiad yr oedd y sefydliad yn bwriadu ei gyhoeddi, a baratowyd ar y cyd â Global Canopy, ar amlygiad cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru i risg datgoedwigo. Roedd yr adroddiad yn ystyried dibyniaethau posibl cronfeydd Cymru a'r effeithiau ar natur. Trefnodd Partneriaeth Pensiwn Cymru gyfarfod gyda Maint Cymru i drafod yr adroddiad, a oedd yn cyd-daro â chwblhau ein dadansoddiad ein hunain. Roedd canlyniadau'r gwaith ymgysylltu a dadansoddi hwn yn cynnwys Partneriaeth Pensiwn Cymru:

- Datblygu ymrwymiadau polisi i natur
- Nodi cyfranwyr sylweddol at risg datgoedwigo ar gyfer craffu parhaus manylach, gyda chwmnïau perthnasol wedyn yn cael eu hychwanegu at ein rhestr sydd â ffocws ar yr hinsawdd
- Ymgysylltu â'n Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu ynghylch datgoedwigo
- Archwilio opsiynau i wella cwmpas y data a chynnal dadansoddiad ategol pellach

**Astudiaeth achos: Robeco: targedu colledion natur**

Dros y flwyddyn cwblhaodd Robeco, ar y cyd â Worldwide Fund for Nature Netherlands, ei fframwaith buddsoddi mewn bioamrywiaeth, gan asesu effaith cwmnïau ar golledion natur. Er bod hyn i'w ddefnyddio ym mhrosesau buddsoddi Robeco - ac felly dim ond mewn ystyr buddsoddi y mae'n berthnasol i Is-gronfa Credyd Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru - mae'r fframwaith yn tynnu sylw at ymrwymiad Robeco i fynd i'r afael â cholledion natur.

Mae'r effaith anuniongyrchol ar y Bartneriaeth wedi bod trwy Bolisi Pleidleisio trwy Ddirprwy Robeco, sy'n cael ei gymhwyso i Is-gronfeydd ecwiti y Bartneriaeth, gan dargedu cwmnïau sydd ag amlygiad uchel i risg datgoedwigo ac sydd â gweithdrefnau lliniaru annigonol i gyfyngu a lleihau'r effaith. Mae Robeco hefyd wedi ymgysylltu ynghylch datgoedwigo o fewn amlygiadau sofran, gan gynnwys ym Mrasil ac Indonesia. Mae deialog Robeco gyda llywodraeth Brasil wedi cynnwys chwilio am atebion sy'n systematig ac yn gymdeithasol fuddiol. Mae hyn yn cael ei geisio ar sawl ffrynt. Er enghraifft, cynyddu tryloywder a'r gallu i olrhain data cadwyn gyflenwi gwartheg, a fyddai'n grymuso cwmnïau i olrhain eu hamlygiad eu hunain, yn ogystal â chaniatáu mwy o fonitro ac adrodd yn fwy cyffredinol. Ar y lefel fuddsoddi, cynhaliwyd trafodaethau hefyd ar ddatgloi cyllid gwyrdd, mewn marchnadoedd credyd cynaliadwy, er enghraifft. Er bod Brasil yn wynebu sawl her o du lobïo gwrth-amgylcheddol, mae Robeco yn hyderus yn ymrwymiad yr arlywydd newydd i fynd i'r afael â risgiau natur.

Yn olaf, gan gydnabod natur gydgysylltiedig newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth, ehangodd Robeco y thema ymgysylltu 'Climate Transition of Financials' i gynnwys ymgysylltu â sefydliadau o'r fath ynghylch bioamrywiaeth hefyd. Lansiwyd hyn yn ystod diwedd blwyddyn Partneriaeth Pensiwn Cymru, gyda saith sefydliad ariannol perthnasol wedi'u targedu.

## Risgiau geowleidyddol

Tynnodd Banc Lloegr sylw at sawl gwrthdaro parhaus fel pryderon perthnasol dros 2023/2024, gan gynnwys Rwsia/Wcráin ac Israel/Tiriogaethau Meddianedig Palesteina. Ar hyn o bryd mae Waystone yn olrhain cysylltiad Partneriaeth Pensiwn Cymru â chwmnïau Israelaidd ac mae'n parhau i fonitro'r sefyllfa bresennol fel rhan o'i broses oruchwylio.

Mae Russell yn gwerthuso'n barhaus yr hyn y gallai mecanwaith trosglwyddo tebygol unrhyw ddigwyddiad geowleidyddol fod, ac yna'n ceisio mesur yr effaith ar bortffolios. Gwerthusir risgiau gwleidyddol o safbwynt risg buddsoddi ac o safbwynt risg weithredol. Asesir risgiau gwleidyddol mewn cyd-destun buddsoddi fel rhan o farchnad Russell Investments a phrosesau rheoli risg credyd, sy'n cynnwys profion straen cyfnodol a dadansoddi senarios, ynghyd â dadansoddi risgiau eraill. Yn achos dwysáu'r gwrthdaro yn y Dwyrain Canol, ystyriodd Russell yr effaith debygol trwy gyfrwng marchnadoedd olew ac unrhyw effeithiau ar economïau go iawn. Rhyngweithiodd Russell ag is-ymgynghorwyr gwaelodol wrth i'r gwrthdaro godi, er, ar sail eu dadansoddiad, ni chymerodd unrhyw gamau uniongyrchol mewn perthynas â'r Is-gronfeydd dros y cyfnod adrodd. Hyd yn hyn, prin iawn yw'r effaith ar fuddsoddi sydd wedi deillio o'r digwyddiadau hyn.

## Ymosodiadau seiber

Dros y cyfnod adrodd nododd Russell dair risg seiber bosibl:

1. Risg trydydd parti: Mae Russell wedi gweithredu rhaglen rheoli risg, sy'n cynnwys asesiad seiberddiogelwch cychwynnol ac asesiadau blynyddol ar gyfer pob trydydd parti allweddol. Mae mynd i'r afael â risg trydydd parti ar sail ad-hoc hefyd yn digwydd pan ddarganfyddir digwyddiadau seiberddiogelwch diwydiant, gan gynnwys deall maint yr effaith, sut mae trydydd partïon wedi mynd i'r afael â'r digwyddiad a sut y byddant yn ei atal yn y dyfodol.
2. Colli data: Mae Russell Investments wedi gweithredu systemau Atal Colli Data cadarn i ganfod ac atal senarios bwriadol a damweiniol. Mae'r systemau hyn yn cwmpasu gwahanol lwybrau ac yn cynnwys blocio cyfryngau symudadwy USB, postio i'r cyfryngau cymdeithasol, safleoedd rhannu ffeiliau ac e-bostio cynnwys sensitif y tu allan i'r cwmni.
3. Gwe-rwydo/meddalwedd wystlo: Yn ogystal â rheolaethau sydd ar waith i hidlo'r cynnwys hwn ar y perimedr, cael amddiffyniadau pwynt terfyn ar waith gydag EDR Russell (canfod ac ymateb pwynt terfyn) a mesurau wrth gefn digyfnewid, mae Russell Investments wedi buddsoddi'n helaeth mewn hyfforddiant defnyddiwr terfynol. Mae'r tîm seiberddiogelwch yn anfon fideos hyfforddi i'r holl gymdeithion a chontractwyr ar sail chwarterol ac mae hefyd yn cynnal profion gwe-rwydo aml (o leiaf bob chwarter).

Ni phrofodd Russell unrhyw ddigwyddiadau seibr cysylltiedig dros y cyfnod.

## Economi'r DU

Roedd chwyddiant yn pwyso ar hyder defnyddwyr yng nghanol argyfwng costau byw. Mae cynnydd mewn cyfraddau llog gan Fanc Lloegr a disgwyliadau i gyfraddau aros yn uwch na'r disgwyl wedi achosi pwysau ailariannu morgeisi, gyda defnyddwyr yn dod â chyfraddau isel am dymor penodol i ben ac ailgyllido ar gyfraddau llawer uwch. Fodd bynnag, profodd defnyddwyr a'r economi i fod yn fwy gwydn na'r disgwyl, gyda'r gobaith o dorri cyfraddau Banc Lloegr yn 2024 hefyd yn rhoi rhywfaint o ryddhad. Roedd risg wleidyddol yn parhau, yn enwedig tuag at ddiwedd y cyfnod a'r disgwyliadau ar gyfer yr etholiad cyffredinol. Addasodd Is-gronfa Cyfleoedd y DU yr amlygiadau yn unol â hynny drwy gydol y cyfnod, gyda Russell yn cynnal cyfathrebu agos dros y cyfnod, gan ystyried bod y camau a gymerwyd yn briodol.

## Marchnadoedd datblygol

Effeithiodd all-fuddsoddwyr tramor yn drwm ar Tsieina. Roedd cryfder yr economi, meddalu gwariant defnyddwyr domestig a lefelau dyled uchel yn y sector eiddo yn pwyso ar hyder. Mewn ymateb, gwnaeth Banc Pobl Tsieina nifer o doriadau cyfradd llog yng nghanol galw domestig 'annigonol' a chwistrellu hylifedd i mewn i'r system fancio. Er mwyn rheoli risg yma, ystyriodd Russell yr amlygiad i Tsieina yn ofalus, gan gadw rheolwr arbenigol Tsieina o dan ei bwysau targed yn ystod y cyfnod.

# GWEITHIO GYDA'N GILYDD

## Rydym yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid CPLlL eraill

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod y gall cydweithio â buddsoddwyr a chyrff cynrychioliadol eraill o'r un anian wneud y mwyaf o ddylanwad asedau'r Bartneriaeth ar y cwmnïau y buddsoddir ynddynt. Un maes o gydweithio uniongyrchol a wneir gan y Bartneriaeth yw trwy'r Grŵp Buddsoddi Cyfrifol ar Draws Cronfeydd Cyfunol. Mae'r grŵp yn cynnwys cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o Loegr, Yr Alban a Chymru, ac mae'n cynnwys cronfeydd a gweithredwyr cronfeydd. Mae'r fforwm yn gyfle am drafodaethau rhwng buddsoddwyr Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gweithredu yn yr un amgylchedd rheoleiddiol a chyda disgwyliadau tebyg gan Awdurdodau Cyfansoddol a buddiolwyr ar faterion Buddsoddi Cyfrifol a materion ESG.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru, ynghyd â phob Awdurdod Cyfansoddol, yn aelod o LAPFF, sy'n ymgysylltu â chwmnïau ar ran ei holl aelodau. Mae LAPFF yn fforwm ar gyfer cronfeydd Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol, a hwn yw'r fforwm ymgysylltu cydweithredol mwyaf i gyfranddalwyr yn y DU, ac mae'n ymgysylltu ar draws ystod eang o themâu ESG gyda chwmnïau y buddsoddir ynddynt. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn aelod cronfa o LAPFF ac mae'n bwydo mewn i'r cynllun gwaith ymgysylltu blynyddol. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn manteisio'n uniongyrchol ar rybuddion pleidleisio LAPFF, sy'n cael eu bwydo i mewn i'r polisi pleidleisio. Ymhellach, mae gwybodaeth a gafwyd o ymgysylltu â LAPFF yn gosod sylfaen ar gyfer deialog a her barhaus i weithgareddau BlackRock, Russell a Robeco ei hun, gan sicrhau felly fod y trafodaethau yn adeiladol.

### Cynrychiolydd ar Grŵp Ymgynghorol Buddsoddi Cyfrifol Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun

Wedi'i ffurfio yn 2019, mae Grŵp Ymgynghorol Buddsoddi Cyfrifol (RIAG) Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun (SAB) yn cyfarfod unwaith bob chwarter i drafod materion Buddsoddi Cyfrifol fel y maent yn berthnasol i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi parhau i gael cynrychiolydd ar y Grŵp Ymgynghorol Buddsoddi Cyfrifol, lle mae wedi cyfrannu'n weithredol at nifer o drafodaethau dros y flwyddyn, gan gynnwys ar:

- Effaith a chodi'r gwastad yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Adeiladu dull cyffredin o adrodd ar risg hinsawdd
- Yr adolygiad o Gôd Stiwardiaeth y DU
- Y Tasglu ar Ffactorau Cymdeithasol

### Panel Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol Robeco

Eleni, yn ogystal â'i banel perchnogaeth weithredol, cynhaliodd Robeco banel penodol ar Gynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol ym mis Tachwedd. Roedd y cyfarfod yn gyfle i gleientiaid Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (cleientiaid ymgysylltu a buddsoddi) rannu eu hamcanion a'u blaenoriaethau ar gyfer y sector Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a bwydo i feysydd gwaith tîm Perchnogaeth Weithredol Robeco dros y flwyddyn. Roedd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn falch o fod yn bresennol yn y sesiwn, lle trafodwyd nifer o feysydd ffocws stiwardiaeth â blaenoriaeth, gan gynnwys rhai yn ymwneud â: hawliau dynol (yn enwedig mewn ardaloedd lle ceir gwrthdaro); yr argyfwng costau byw yn y DU; bioamrywiaeth forol ac ecosystemau arfordirol; deallusrwydd artiffisial; a'r sector mwyngloddio. Roedd y trafodaethau hefyd yn helpu i gryfhau'r drafodaeth ar ddewis thema yn y panel Perchnogaeth Weithredol ddiwedd mis Tachwedd, y byddwn yn ei thrafod yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn..

## Partneriaid allanol

Gan fod barn Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gael yr effaith fwyaf posibl trwy flaenoriaethau a chydweithio cydfuddiannol yn cyd-fynd â barn Robeco, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn dibynnu'n helaeth ar y Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu i ymgymryd ag unrhyw gydweithrediadau perthnasol i'r diwydiant ar ein rhan ac i adrodd yn ôl ar unrhyw gynnydd. Mae Robeco yn mynd ati i gydweithio gyda'r canlynol:

- UN PRI
- Net Zero Asset Managers Initiative
- Climate Action 100+ (CA100+)
- Taskforce on Nature-related Financial Disclosures
- Platform Biodiversity Accounting Financials
- Finance for Biodiversity Pledge
- Cambridge Institute for Sustainable Leadership
- World Wide Fund for Nature Netherlands
- Investor Mining and Tailings Safety Initiative
- Investor statement on the UN Treaty on Plastics
- Investor Alliance for Human Rights
- Nature Action 100 (NA100)
- PRI Human Rights Stewardship Initiative (Advance)
- Global Commission on Mining 2030
- Finance Sector Deforestation Action (FSDA)
- Eumedion: Ahold, Unilever
- ACGA Korea Working Group: Hyundai Motor, Samsung Electronics
- Asia Research and Engagement: Sumitomo Mitsui Financial

**Astudiaeth achos: Nature Action 100**

Mae Robeco yn un o lofnodwyr cychwynnol y rhaglen ymgysylltu gydweithredol dan arweiniad buddsoddwyr, Nature Action 100. Mae'r fenter yn ceisio gyrru uchelgais gorfforaethol wrth fynd i'r afael â cholli natur a bioamrywiaeth, gan ganolbwyntio ar nifer o sectorau allweddol. Fel rhan o'i ymrwymiad, adolygodd Robeco ei amlygiad buddsoddi i risg bioamrywiaeth, yn ogystal â chan gleientiaid, yna dewisodd nifer o sectorau a chwmnïau yr oedd am eu cynnwys o dan Weithredu Natur 100. Canfu'r adolygiad bod y risg fwyaf i'w chanfod mewn tri segment allweddol: cemegion; adwerthu, bwyd a diod; a chynhyrchion cartref a phersonol. Felly, bydd Robeco yn canolbwyntio ei ymrwymiadau ar 11 o gwmnïau o fewn y sectorau hynny, gyda phob ymgysylltiad wedi'i deilwra i'r cwmni unigol, gan chwilio am sefydlu targedau ystyrlon a fframweithiau adrodd, er enghraifft ynghylch colli bioamrywiaeth ac effaith ar natur. Lansiwyd y thema ar ddiwedd y flwyddyn adrodd, ac rydym yn gobeithio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn ein cyflwyniad nesaf.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd yn elwa o'r ymdrechion stiwardiaeth dan arweiniad Russell Investments. Mae hyn yn cynnwys mentrau ymgysylltu gan Russell, ei bartneriaeth â Sustainalytics sy'n cefnogi pedair thema allweddol, ac amrywiol gydweithrediadau diwydiant y mae Russell wedi ymuno â nhw.

| Russell Investments Engagement Focus Areas | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Environment** | | **Social** | | **Governance** | |
| **Climate Change Resilience** | **Natural Capital Management** | **Human Capital Management** | **Diversity & Inclusion** | **Board Composition & Accountability** | **Executive Compensation** |
| **Focus** Promote increased transparency on climate related disclosures and practices | **Focus** Encourage responsible environmental management and sustainable usage of resources | **Focus** Action on how companies attract, develop, and retain employees while providing appropriate working conditions | **Focus** Increasing awareness of the impact of diversity on firm's investment performance and culture | **Focus** Action of board of directors which is the focal point of corporate governance | **Focus** Alignment of executive compensation with corporate performance |
| Sustainalytics Themes | | | | | |
| Biodiversity & Natural Capital | | Human Capital | Human Rights | Material Risks Japan | |
| Collaborations | | | | | |
| **Climate Action 100+** | | **IIGCC** | | **Nature Action 100** | |

Yn ogystal, mae Russell hefyd yn cymryd rhan mewn nifer o fentrau a chydweithrediadau diwydiant. Yn ystod y flwyddyn, roedd hyn yn cynnwys cymryd rhan yn benodol yn y canlynol:

- Ymgynghoriad Trysorlys EF ar drefn reoleiddio'r dyfodol ar gyfer darparwyr graddfeydd ESG
- Grŵp Buddsoddwyr: llythyr yn galw am roi mandad sero net i Ofgem
- UN PRI: Arolwg Adnoddau Stiwardiaeth Fyd-eang
- CDP: Ymgyrch Ymgysylltu SBT
- IIGCC: Holiadur Alinio Stiwardiaeth
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau: Ymgynghoriad tasglu ar Ffactorau Cymdeithasol
- NA 100 Adborth ar Ddangosyddion Meincnod Drafft
- TNFD: Arolwg Adeiladu Capasiti
- FRC: Ymgynghoriad Côd Llywodraethu Corfforaethol y DU

# STIWARDIAETH

## Fframwaith Stiwardiaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru

Mae'r Bartneriaeth yn defnyddio ei Fframwaith Stiwardiaeth fel sail ar gyfer ei hadolygiad stiwardiaeth blynyddol. Yn ogystal â nodi unrhyw fylchau stiwardiaeth posibl a risgiau sy'n datblygu, y gellir eu defnyddio i wella gwaith monitro ac adrodd, mae'r adolygiad blynyddol yn gwasanaethu dau brif ddiben: (1) ystyried a oes angen datblygu unrhyw un o themâu presennol y Bartneriaeth; (2) bwydo i mewn i banel cleientiaid Perchnogaeth Weithredol blynyddol Robeco, lle dewisir themâu stiwardiaeth newydd..

| Associated SDGs | Core Theme | WPP Stewardship theme | LAPFF Implementation | Robeco Implementation | |
|---|---|---|---|---|---|
| **7. Affordable & clean energy**<br>**13. Climate action** | **Climate Change** | **Focusing on net zero** | Climate: 'Net' zero, Paris-aligned accounts; strategic resilience; Fair and Just Transition; electric vehicles<br>Sustainable Commodities and Deforestation, Biodiversity, Plastics, Public Health | Acceleration to Paris<br>Climate transition of financial institutions<br>Just Transition<br>Net zero carbon emissions | SDG engagement \| Global Controversy Engagement \| AGM engagement \| Sovereign engagement |
| **6. Clean water & sanitation**<br>**14. Life below water**<br>**15. Life on land** | **Environment** | | Climate and Strategic Resilience<br>Environmental Protection<br>Fair and Just Transition (ECE): including *Water Companies and Sewage and Water Security*<br>Sustainability and Shareholder Value | Biodiversity<br>Nature Action 100<br>Natural resource management<br>Ocean biodiversity<br>Palm oil | |
| **1. No poverty**<br>**2. Zero hunger**<br>**3. Good health & wellbeing** | **Health & Wellbeing** | | | Hazardous chemicals | |

| Associated SDGs | Core Theme | WPP Stewardship theme | LAPFF Implementation | Robeco Implementation | |
|---|---|---|---|---|---|
| **4. Quality education** | **Diversity & Inclusion** | **Supporting people** | Promoting Good Governance: including *Diversity (GOV)* | Diversity & inclusion | SDG engagement \| Global Controversy Engagement \| AGM engagement \| Sovereign engagement |
| **5. Gender equality** | | | | | |
| **10. Reduced inequalities** | | | | | |
| **8. Decent work & economic growth** | **Society & Community** | | Employment Standards and Supply Chains, Covid, Human Rights, Diversity<br>Human Rights and Employment Practices (EMP) | Fashion transition<br>Human rights DD for conflict-affected areas<br>Labour practices in a post-Covid world<br>Modern slavery in supply chains<br>Sound social management | |
| **9. Industry innovation & infrastructure** | | | | | |
| **11. Sustainable cities & communities** | | | | | |
| **12. Responsible consumption & production** | | | | | |
| **16. Peace, justice & strong institutions** | **Good Governance** | **Delivering sustainable outcomes (governance)** | Promoting Good Governance: including *Anti-Bribery and Corruption and Technology and Governance*<br>Reliable Accounts, Capital Market Regulatory Reform (REL)<br>Leadership: Emerging and Developing Initiatives (LEAD)<br>Holdings Based Engagement, AGM Attendance (HBE)<br>Policy Engagements (CONS) | Corporate governance standards in Asia<br>Good governance<br>Responsible executive remuneration<br>Tackling tax transparency | |

Mae'r broses adolygu flynyddol yn defnyddio ystod eang o fewnbynnau, gan gynnwys:

- **Themâu sy'n deillio o fonitro parhaus:** thgall monitro is-gronfeydd yn barhaus helpu i nodi bylchau stiwardiaeth posibl. Er enghraifft, materion y dylid eu codi gyda chwmnïau neu dueddiadau y mae angen mynd i'r afael â nhw.
- **Mewnbwn gan y gymuned fuddsoddi ehangach:** gan gynnwys ymchwil, deddfwriaeth sydd ar ddod, materion newydd sy'n codi pryder, monitro newyddion a safbwyntiau Buddsoddi Cyfrifol, a mewnbwn yn deillio o'r arbenigedd stiwardiaeth ehangach o fewn Ymgynghorydd Goruchwylio Partneriaeth Pensiwn Cymru.

O gofio mai 2022/23 oedd y flwyddyn gyntaf o ddatblygu ein blaenoriaethau pleidleisio yn themâu stiwardiaeth, nid oeddem yn teimlo y dylid gwneud unrhyw newidiadau/ychwanegiadau sylweddol i'r meysydd ffocws hyn. Fodd bynnag, y teimlad oedd y gellid datblygu dwy o'r themâu:

### Cefnogi pobl

Nodwyd hyn mewn trafodaethau gyda swyddogion ac roedd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn teimlo y gellid gwneud mwy i ymgysylltu ynghylch y cyflog byw yn y DU, gan dynnu sylw at fentrau cydweithio yma megis y glymblaid Gwaith Da (Good Work coalition). Gwnaethom nodi bod gwaith ymgysylltu Robeco ynghylch cyfalaf dynol yn canolbwyntio'n bennaf ar gwmnïau yn yr Unol Daleithiau a marchnadoedd datblygol.

### Canolbwyntio ar sero net

Roedd y thema hon eisoes wedi datblygu i fynd y tu hwnt i'r disgwyliad yn unig o reoli a datgelu risg yn yr hinsawdd, gan ymgorffori disgwyliadau ynghylch cynllunio at bontio a chysoni sero net, yn ogystal â thynnu sylw at bwysigrwydd penodol mynd i'r afael â'r rhain mewn sectorau yr effeithir arnynt yn sylweddol. Roeddem yn teimlo mai maes arall y bydd angen craffu pellach arno'n gynyddol yw'r un sy'n ymwneud â'r ddibyniaeth ar wrthbwyso a dal carbon o fewn cynlluniau hinsawdd cwmnïau. Wrth i ni nesáu at 2030, bu cynnydd mewn cwmnïau sy'n ceisio defnyddio technolegau dal a gwaredu carbon a/neu brosiectau gwrthbwyso i gyrraedd targedau sero net. Credwn y dylid arfer gofal wrth eu defnyddio, gan ei bod ar hyn o bryd yn farchnad heb ei rheoleiddio i raddau helaeth, ac o ystyried materion yn ymwneud â pharhauster ac ychwanegedd.

Tra cafodd yr uchod eu hystyried yn rhai oedd yn werth eu trafod gyda Robeco yn y panel cleientiaid i ddewis thema ymgysylltu flynyddol, ystyriwyd bod tair thema hefyd yn berthnasol gan RISG Partneriaeth Pensiwn Cymru a rhanddeiliaid eraill.



### Ymgysylltu sofran

Un maes lle mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn credu bod angen mwy o weithredu arno yw ymgysylltu sofran/polisi. Er ei fod yn faes mwy cymhleth na gyda chyhoeddwyr corfforaethol, gyda llai o fodd i effeithio ar bolisïau gwlad, rydym yn gweld ymgysylltu sofran yn arbennig o berthnasol mewn marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg gyda materion lled-sofran. Gwnaethom dynnu sylw at adborth gan un o reolwyr buddsoddi gwaelodol y Bartneriaeth, am löwr Mecsicanaidd, lle roedd y rheolwr yn teimlo bod stiwardiaeth lwyddiannus gyda'r cwmni i'w phriodoli i'w waith ymgysylltu gyda llywodraeth Mecsico.

### Deallusrwydd Artiffisial

Mae cynnydd offer megis ChatGPT a'r defnydd cynyddol brif ffrwd o Ddeallusrwydd Artiffisial wedi creu angen i sicrhau bod Deallusrwydd Artiffisial yn cael ei ddefnyddio'n gyfrifol a chyda'r amddiffyniadau angenrheidiol i bobl. Yng nghamau cynnar defnyddio unrhyw dechnoleg newydd, gall twf yn aml fod yn esbonyddol, gyda chwmnïau yn ceisio sefydlu sut y gellir integreiddio offer o'r fath mewn busnes. Mae'n hanfodol bod mesurau diogelu yn cael eu cynnwys mewn prosesau ar yr un pryd ag y caiff yr achosion defnydd eu sefydlu, yn hytrach nag ar ôl y digwyddiad. Tynnodd Partneriaeth Pensiwn Cymru sylw at y ffaith y dylai stiwardiaeth ganolbwyntio ar ddatblygu a defnyddio mesurau diogelu o'r fath, yn enwedig wrth ystyried yr anfanteision cymdeithasol (megis colli swyddi) a'r risgiau anfanteisiol dirfodol ehangach.

### Amgylchedd morol

Creodd y ffocws cynyddol ar ansawdd dŵr yn y DU, yn enwedig gyda lefelau rhyddhau carthffosiaeth, ffocws ar fioamrywiaeth dŵr croyw a môr. Gydag arfordir o tua 1,700 milltir a 139 o Ardaloedd Morol Gwarchodedig, yn gorchuddio 69% o ddyfroedd y glannau, mae sicrhau economi forol gynaliadwy yn rhan o strategaeth Llywodraeth Cymru, gydag iechyd y môr yn bwysig wrth gyflawni nodau hinsawdd a bioamrywiaeth byd-eang. Fodd bynnag, nododd Partneriaeth Pensiwn Cymru mai'r amgylchedd morol yw un o'r meysydd ffocws isaf i fuddsoddwyr a'r rheiny sy'n targedu cynnydd yn erbyn y Nodau Datblygu Cynaliadwy.

### Adborth rhanddeiliaid

Un cyfraniad allweddol ar gyfer datblygu'r themâu stiwardiaeth oedd ymgorffori adborth gan randdeiliaid ehangach. O'r ymatebion a dderbyniwyd, ystyriwyd bod datblygu'r thema sero net yn hynod bwysig. Roedd yr holl randdeiliaid hefyd yn cytuno y dylid craffu i raddau mwy ar gwmnïau'r DU o ran rheoli cyfalaf dynol. Cytunwyd hefyd y dylid cyflwyno Amddiffyn yr Amgylchedd Morol ac Effaith Gymdeithasol Deallusrwydd Artiffisial i banel cleientiaid Robeco ym mis Tachwedd 2023.

**Astudiaeth achos: Panel cleientiaid ymgysylltu Robeco**

Chwaraeodd Partneriaeth Pensiwn Cymru ran weithredol ym mhanel cleientiaid perchnogaeth weithredol Robeco, gyda Bioamrywiaeth y Môr a Chymhwyso Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol mewn modd Cyfrifol yn cael eu rhoi ar y rhestr fer i'w hystyried gan sylfaen gleientiaid ehangach Robeco. Dewisodd cleientiaid thema Bioamrywiaeth y Môr fel un i'w mabwysiadu'n barhaus gan Robeco, a lansiwyd tua diwedd 2024. Roedd y Bartneriaeth yn falch iawn o weld bod ei chyfraniad yn cael ei adlewyrchu'n uniongyrchol mewn camau gweithredu.

Roedd y Bartneriaeth hefyd yn cefnogi ail thema, Cemegion Peryglus, gan ystyried bod hyn yn bryder a nodwyd yn flaenorol. Bydd y thema hon hefyd yn cael ei lansio tua diwedd 2024.

## Ein Themâu Stiwardiaeth

Gan ymgorffori'r adolygiad blynyddol a amlinellir uchod, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi pennu set o Themâu Stiwardiaeth. Rôl y rhain yw darparu meysydd ffocws er mwyn hysbysu Robeco o ddisgwyliadau pleidleisio ac ymgysylltu Partneriaeth Pensiwn Cymru a chraffu ar y gweithgarwch pleidleisio sy'n cael ei wneud ar ran y Bartneriaeth, er mwyn sicrhau bod y ffocws yn adlewyrchu'r pynciau sydd fwyaf perthnasol i'r Bartneriaeth a bod gweithgarwch stiwardiaeth yn cyflawni'r canlyniad a ddymunir. Defnyddir y themâu fel meysydd ffocws allweddol ar gyfer y gwaith pleidleisio ac ymgysylltu a wneir gan Robeco, yn ogystal â gwaith craffu Partneriaeth Pensiwn Cymru ar ei rheolwyr.

| Thema Stiwardiaeth | Rhesymeg |
|---|---|
| **Canolbwyntio ar Sero Net** | Dylai sefydliadau, yn enwedig y rhai mewn sectorau yr effeithir arnynt yn sylweddol, fod yn datblygu ac yn gweithredu cynlluniau pontio i sicrhau bod y mudo hirdymor i economi carbon isel yn drefnus. Dylai cwmnïau sicrhau bod cynlluniau'n cael eu cyhoeddi, a bod datgeliadau rheoli hinsawdd yn gynhwysfawr ac ar gael ar gyfer craffu buddsoddwyr. Dylai unrhyw ystyriaeth o wrthbwyso carbon yng nghynlluniau sero net cwmnïau fod yn unol ag Egwyddorion Rhydychen, a dylid gwneud rhanddeiliaid yn ymwybodol o unrhyw ddibyniaeth ar dechnolegau gwaredu carbon, gan gynnwys i ba raddau y defnyddir y technolegau hyn. |
| **Cefnogi pobl** | Mae gweithlu sefydliad yn un o'i asedau mwyaf gwerthfawr, ac mae'n ddyletswydd ar y sefydliad i sicrhau bod ei bobl yn cael eu rheoli a'u gwobrwyo'n briodol. Mae hyn yn cynnwys ystyried pobl o fewn cadwyni cyflenwi, a all yn aml fod yn feysydd o graffu is. Er ei fod yn cydnabod y gall ymgysylltu fod yn gynnil, o ystyried amgylchiadau rhanbarthol, sectoraidd a meintiol unigryw, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn arbennig o gefnogol i ymgysylltu â chwmnïau'r DU ynghylch cysoni eu strwythurau cyflog gyda chanllawiau'r Sefydliad Cyflog Byw. |
| **Sicrhau canlyniadau cynaliadwy (llywodraethu)** | Dylid rheoli sefydliadau gyda gorwel tymor hirach er mwyn sicrhau bod arferion yn dod yn fwy cynaliadwy. Gall hyn sicrhau bod cydnabyddiaeth ariannol swyddogion gweithredol yn cael ei gysylltu'n well â nodau tymor hir, gan gynnwys meini prawf ESG. |

# Stiwardiaeth mewn marchnadoedd preifat

Er bod ffocws stiwardiaeth yn aml ar y gofod rhestredig, rhaid i ni hefyd gydnabod pwysigrwydd gweithgarwch yn y gofod marchnadoedd preifat, lle gellir nodi effaith a dylanwad, o ystyried natur y berthynas fuddsoddi yn y dosbarthiadau asedau hyn. Ar ôl lansio ein rhaglenni marchnad breifat yn ddiweddar, rydym yma yn cynnig nifer o enghreifftiau o'r modd y mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymarfer perchnogaeth weithredol dros ei buddsoddiadau sydd heb eu rhestru.

## Dyled breifat

Caiff buddsoddiadau dyled breifat Partneriaeth Pensiwn Cymru eu rheoli gan Russell Investments, sy'n cymhwyso'r un dulliau diwydrwydd dyladwy ESG a gwell goruchwyliaeth i fuddsoddiadau'r farchnad breifat

**Astudiaeth achos: ymgysylltu â chwmnïau portffolio dyled breifat**

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi buddsoddi mewn cronfa dyled breifat sy'n canolbwyntio ar ynni adnewyddadwy a seilwaith i ariannu'r pontio ynni a chefnogi datgarboneiddio, gyda disgwyl i gredyd yn gyffredinol fod yn ffynhonnell fawr o gyfalaf i ariannu datgarboneiddio yn fyd-eang. Yn ystod diwydrwydd dyladwy cyn buddsoddi, nododd y rheolwr gyfleoedd ymgysylltu i gynorthwyo cwmnïau portffolio i fodloni disgwyliadau amgylcheddol a chymdeithasol y gronfa. Er enghraifft, mae'r rheolwr yn cynnig gwasanaeth mesur mewn partneriaeth ag ymgynghorydd ESG trydydd parti er mwyn i gwmnïau portffolio fesur eu hôl troed carbon gweithredol. O ystyried yr angen cynyddol am argaeledd data hinsawdd mewn marchnadoedd preifat, mae hon yn fenter i'w chroesawu. Mae'r rheolwr hefyd wedi ceisio unrhyw gyfleoedd cydweithredol yma, gan weithio mewn partneriaeth â rheolwr Partneriaeth Pensiwn Cymru arall ar yr ochr ecwiti breifat i helpu cwmni portffolio gwaelodol i fesur ei allyriadau nwyon tŷ gwydr a chofnodi rhestr o ddata ôl-troed carbon gweithredol.

## Ecwiti preifat

Caiff dyraniad ecwiti preifat Partneriaeth Pensiwn Cymru ei reoli gan Schroders Capital, sy'n buddsoddi mewn sawl ffordd wahanol: buddsoddiadau cynradd; buddsoddiadau eilaidd; yn ogystal â buddsoddiadau uniongyrchol ac ar y cyd. Ceir ffocws ar bum sector allweddol: gofal iechyd; technoleg; defnyddwyr; gwasanaethau busnes; a diwydiannau. Mae Schroders yn defnyddio fframwaith perchnogol, RISE (Codi Effaith, Cynaliadwyedd ac Ymgysylltu) pan ddaw'n fater o'i fuddsoddiadau ac yn adrodd ar nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol ESG, gan gynnwys: allyriadau nwyon tŷ gwydr; ynni adnewyddadwy; damweiniau sy'n gysylltiedig â gwaith; ac amrywiaeth.

**Astudiaeth achos: buddsoddi yn y pontio ynni**

Mae un o fuddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru mewn cronfa ecwiti preifat sy'n canolbwyntio ar y pontio ynni, gan dargedu nifer o themâu, gan gynnwys: trydaneiddio; ynni adnewyddadwy; storio ynni; a digideiddio. Mae ystyriaethau ESG yn cael eu hintegreiddio i'r thesis buddsoddi a'r broses. Mae Schroders yn asesu'r Partner Cyffredinol a'r gronfa ei hun i nodi meysydd o welliant, gan ystyried arferion cyfredol a gosod cynllun ôl-fuddsoddi y gellir ei asesu'n barhaus. Mae Schroders wedi nodi nifer o feysydd stiwardiaeth, y bydd y rheolwr yn parhau i adrodd arnynt ac y gall Partneriaeth Pensiwn Cymru eu defnyddio i fonitro cynnydd:

**Lefel Partner Cyffredinol:**

- Annog y tîm i ychwanegu uchelgeisiau sy'n benodol i fuddsoddi effaith yn ei bolisi ESG, o ystyried natur thematig y Gronfa
- Annog y tîm i fod yn fwy gweithredol mewn mentrau diwydiant
- Anogaeth i benodi un swyddog ESG pwrpasol

**Fund level:**

- Ymgysylltu'n weithredol i safoni asesiadau risg hinsawdd ymhellach
- Monitro PAI ac ansawdd a pherfformiad data effaith ac ymgysylltu lle bo angen
- Ymgysylltu'n weithredol wrth ymadael o safbwynt effaith, gan ddilyn yr Egwyddorion Gweithredu ar gyfer Rheoli Effaith

## Seilwaith

Caiff buddsoddiadau seilwaith caeedig Partneriaeth Pensiwn Cymru eu rheoli gan GCM Grosvenor, tra bod CBRE, IFM ac Octopus yn gweithredu'r rhaglenni seilwaith caeedig. Mae pob un o reolwyr seilwaith Partneriaeth Pensiwn Cymru yn integreiddio ystyriaethau ESG yn eu proses fuddsoddi, yn y cam cymeradwyo (cyn buddsoddi), yn ogystal â thrwy fonitro a goruchwylio. Tra caiff ystyriaethau ESG eu hintegreiddio fel mesur safonol mewn prosesau rheoli risg, gan fynd ymhellach, un maes ffocws allweddol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru yw'r gofod lleol ac effaith, a gallu'r Bartneriaeth i ddefnyddio ei chyfalaf i greu effaith leol yng Nghymru.

**Astudiaeth achos: buddsoddiad effaith: ynni adnewyddadwy yng Nghymru**

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn dyrannu i gronfa buddsoddi effaith, sy'n buddsoddi yn y pontio ynni gyda'r nod o liniaru newid yn yr hinsawdd ac osgoi allyriadau carbon. Yn unol â'r diffiniad effaith o'r Rhwydwaith Buddsoddi Effaith Byd-eang, mae'r rheolwr yn ceisio creu effaith gymdeithasol/amgylcheddol gadarnhaol a mesuradwy ochr yn ochr ag elw ariannol. Mae nifer o asedau'r gronfa eisoes yng Nghymru, gyda disgwyl i nifer o gwmnïau fuddsoddi yng Nghymru hefyd. Mae'r prosiectau'n cwmpasu nifer o feysydd sy'n sylfaenol i'r pontio ynni:

- Cerbydau trydan: gosodwr pwyntiau gwefru yn y DU sy'n bwriadu ehangu ei weithrediadau i Gymru
- Gwynt: datblygu safleoedd gwynt ar y tir yng Nghymru, gan helpu i ddarparu ynni gwyrdd glân o fewn a thu hwnt i Gymru
- Opsiynau eraill yn lle tanwydd ffosil : targedu enwau diwydiannol Cymru i ddefnyddio hydrogen gwyrdd fel defnydd crai cemegol neu ynni yn lle tanwyddau ffosil
- Dosbarthu ynni: gweithredwr rhwydwaith dosbarthu annibynnol, sydd eisoes wedi buddsoddi mewn cysylltiadau grid yng Nghymru gyda phiblinell berthnasol ar gyfer mwy o fuddsoddi



# SUT Y GWNAETHOM BLEIDLEISIO

## Ein canlyniadau pleidleisio

Mae'r map isod yn dangos y rhanbarthau lle bwriwyd pleidleisiau dros y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024, a bennwyd yn ôl dosbarthiad rhanbarthol gwaelodol asedau o fewn Is-gronfeydd ecwiti Partneriaeth Pensiwn Cymru.




| | 2023/24 |
|---|---|
| Nifer y cyfarfodydd | 1,255 |
| Nifer yr eitemau ar yr agenda y pleidleisiwyd arnynt | 15,045 |
| Gyda'r rheolwyr | 13,200 |
| Yn erbyn y rheolwyr | 2,323 |
| Cyfarfodydd lle'r oedd o leiaf un bleidlais yn erbyn rheolwyr | 56% |

**Voting per proposal category**




Ffynhonnell: Robeco; sylwer, efallai na fydd y ffigurau yn adio i greu'r cyfanswm am eu bod wedi'u talgrynnu

# Canlyniadau pleidleisio yn ôl Is-gronfa

## TWF BYD-EANG




Cyfarfodydd a bleidleisiwyd: **171**
Eitemau agenda y pleidleisiwyd arnynt: **2,491**



With management
Against management



Audit/Financials
Board Related
Capital Management
Changes to Company Statutes
Compensation
Mergers & Acquisitions
Meeting Administration
Other
SHP: Environment
SHP: Social
SHP: Governance
SHP: Compensation
SHP: Miscellaneous

## CYFLEOEDD BYD-EANG




Cyfarfodydd a bleidleisiwyd: **562**
Eitemau agenda y pleidleisiwyd arnynt: **7,445**



With management
Against management



Audit/Financials
Board Related
Capital Management
Changes to Company Statutes
Compensation
Mergers & Acquisitions
Meeting Administration
Other
SHP: Environment
SHP: Social
SHP: Governance
SHP: Compensation
SHP: Miscellaneous

## CYFLEOEDD Y DU




Cyfarfodydd a bleidleisiwyd: **153**
Eitemau agenda y pleidleisiwyd arnynt: **2,735**



With management
Against management



Audit/Financials
Board Related
Capital Management
Changes to Company Statutes
Compensation
Mergers & Acquisitions
Meeting Administration
Other
SHP: Environment
SHP: Social
SHP: Governance
SHP: Compensation
SHP: Miscellaneous

## MARCHNADOEDD DATBLYGOL




Cyfarfodydd a bleidleisiwyd: **579**
Eitemau ar yr agenda: **5,122**






## Sicrhau bod pleidleisio'n cyd-fynd â pholisi

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn adolygu'r gweithgarwch pleidleisio a wnaed gan Robeco ar ei rhan bob chwarter ac yn nodi, ar draws ystod o benderfyniadau, bod pleidleisiau wedi'u bwrw yn unol â bwriadau'r Bartneriaeth. Ceir enghreifftiau o hyn isod:

**Cwmni: Alphabet | Cwmni technoleg o'r Unol Daleithiau**
**Dyddiad:** 02 Mehefin 2023
**Pleidlais (rhesymeg a chanlyniad)?**

Roedd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Alphabet yn cynnwys 13 o gynigion gan gyfranddalwyr. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, ni chafodd unrhyw un o'r penderfyniadau eu pasio, oherwydd strwythur cyfranddaliadau aml-ddosbarth y cwmni, sy'n caniatáu i aelodau ddal y rhan fwyaf o'r pŵer pleidleisio a phennu canlyniadau pleidleisio i raddau helaeth. O ystyried hyn, pleidleisiodd Robeco yn erbyn ethol Cadeirydd y Bwrdd (sydd hefyd yn gadeirydd ar y Pwyllgorau Llywodraethu ac Enwebu), gan fod Robeco yn barnu nad oedd y strwythur hwn er budd gorau cyfranddalwyr ehangach a'i fod yn gwyro oddi wrth arferion llywodraethu gorau.

Oherwydd pryderon lluosog ynghylch arferion cyflog y cwmni, megis gwobrau bonws blynyddol dewisol a diffyg darpariaethau adfer digonol, dewisodd Robeco hefyd beidio â chefnogi'r bleidlais ymgynghorol ar ddigolledu swyddogion gweithredol.

Roedd Robeco yn cefnogi'r cynigion ynghylch lobïo hinsawdd, gan gynnwys penderfyniad cyfranddalwyr ynghylch cysoni arferion lobïo Alphabet â'i ymrwymiadau hinsawdd, yn unol ag argymhellion LAPFF.

**Cwmni: Amazon.com | Cwmni technoleg o'r Unol Daleithiau**
**Dyddiad:** 24 Mai 2023
**Pleidlais (rhesymeg a chanlyniad)?**

Roedd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Amazon 2023 yn cynnwys cyfres o gynigion gan reolwyr yn ymwneud ag ethol cyfarwyddwyr, cadarnhad yr archwilydd, digolledu swyddogion gweithredol, gwelliant i'r cynllun stoc a 18 o gynigion gan gyfranddalwyr. Cafodd un o'r rhain ei gyd-ffeilio gan Robeco, yn gofyn i Amazon gomisiynu adroddiad sy'n asesu ei broses diwydrwydd dyladwy ar gyfer cwsmeriaid. Roedd hyn er mwyn penderfynu a yw'r defnydd gan gwsmeriaid o gynhyrchion a gwasanaethau sydd â galluoedd gwyliadwriaeth, golwg cyfrifiadurol, neu storio cwmwl yn cyfrannu at droseddau hawliau dynol. Pleidleisiodd Robeco yn unol â LAPFF.

Cafodd y cynnig gefnogaeth o 34%, a oedd yn dynodi bod diwydrwydd dyladwy cwsmeriaid y cwmni ar hawliau dynol yn cael ei ystyried yn rhywbeth perthnasol i gyfranddalwyr.
Pleidleisiodd Robeco yn erbyn cynnig Say-on-Pay Amazon, o ystyried pryderon bod y cwmni'n methu â chysoni cyflog a pherfformiad.

Gwrthwynebwyd y cynnig gan 32% o'r pleidleisiau a fwriwyd yn y cyfarfod.

**Cwmni: Shell | Cwmni olew a nwy o'r DU**
**Dyddiad:** 23 Mai 2023
**Pleidlais (rhesymeg a chanlyniad)?**

Bu'r cynigion ar gydnabyddiaeth ariannol oedd ar agenda'r cyfarfod yn destun craffu oherwydd y cynnydd mawr yng nghyflog prif swyddogion gweithredol a gofnodwyd gan Shell yn 2022. Dadansoddodd Robeco yr adroddiad a'r polisi ar gydnabyddiaeth ariannol gan ddefnyddio eu fframwaith asesu ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol berchnogol, ac roedd wedi cymryd rhan mewn sioe deithiol am gydnabyddiaeth ariannol a gynhaliwyd gan Shell yn Chwarter 1 2023.

Sgoriodd Shell yn dda yn y fframwaith ac roedd Robeco yn cefnogi'r cynigion am gydnabyddiaeth ariannol, a chafodd y ddau gefnogaeth ysgubol (oddeutu 95%).
Pleidleisiodd Robeco yn erbyn cynnig y rheolwyr ar gynnydd y cwmni o ran pontio ynni, yn unol ag argymhellion LAPFF, gan nodi pryderon gyda thargedau tymor byrrach Shell i leihau dwysedd carbon.

Gwrthwynebwyd y cynnig gan oddeutu 20% o'r pleidleisiau a fwriwyd.
Pleidleisiodd Robeco dros benderfyniad y cyfranddalwyr (a gyflwynwyd gan grŵp cyfranddalwyr o'r Iseldiroedd Follow This), yn unol ag argymhellion LAPFF, gan ofyn i Shell gysoni ei nodau lleihau allyriadau Cwmpas 3 2030 presennol â nodau Cytundeb Paris.

Cafodd y cynnig lefel o gefnogaeth o 20%.

**Cwmni: BP | Cwmni olew a nwy o'r DU**
**Dyddiad:** 27 Ebrill 2023
**Pleidlais (rhesymeg a chanlyniad)?**

Mae cwmnïau olew a nwy mawr, gan gynnwys BP, wedi wynebu beirniadaeth drom yn dilyn pryderon bod eu swyddogion gweithredol yn manteisio ar ymosodiad Rwsia ar Wcráin, a arweiniodd at gynnydd mewn prisiau olew a nwy. Er ei fod yn cydnabod diffygion yr adroddiad a'r polisi ar gydnabyddiaeth ariannol, o bwyso a mesur daeth dadansoddiad Robeco i'r casgliad bod y rhain yn rhai y gellir eu cefnogi.

Cafodd yr adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol ei gefnogi gan 82% o'r pleidleisiau a fwriwyd, tra cafodd y polisi ei gefnogi gan 94% o'r pleidleisiau a fwriwyd.
RoPleidleisiodd Robeco yn erbyn cadeirydd y bwrdd ac roedd yn rhan o'r oddeutu 10% o'r pleidleisiau i sefyll mewn gwrthwynebiad i ethol y cadeirydd. Gwnaed y penderfyniad hwn yn dilyn craffu ar gyhoeddiad BP y byddai'n cefnu ar ei uchelgeisiau hinsawdd blaenorol a'i benderfyniad i beidio â rhoi'r cynllun pontio hinsawdd diwygiedig gerbron er mwyn pleidleisio arno yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2023.

**Cwmni: FedEx | Cwmni logisteg o'r Unol Daleithiau**
**Dyddiad:** 21 Medi 2023
**Pleidlais (rhesymeg a chanlyniad)?**

Roedd nifer o gynigion gan gyfranddalwyr yn destun trafodaeth yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol FedEx. Rydym yn nodi dau sy'n arbennig o berthnasol. Galwodd y cyntaf ar FedEx i baratoi adroddiad sy'n datgelu sut mae'n mynd i'r afael ag effaith ei strategaeth newid hinsawdd ar randdeiliaid perthnasol, gan gynnwys gweithwyr, gweithwyr yn ei gadwyn gyflenwi a'r cymunedau y mae'n gweithredu ynddynt, yn unol â'r canllawiau Pontio Teg. Penderfynodd Robeco fod datgeliadau cyfredol Fedex yma yn gyfyngedig, felly roedd yn cefnogi'r cynnig, yn unol â rhybudd LAPFF

Derbyniodd cynnig y cyfranddalwyr gefnogaeth dros 30% ond ni chafodd ei basio.
Roedd yr ail gynnig yn gofyn am ddatgelu polisïau absenoldeb salwch cyflogedig parhaol y cwmni. Penderfynodd Robeco, o ystyried yr ad-drefnu i'w gwmnïau gweithredu sydd ar ddod (gan gynnwys adolygiad o bolisïau sy'n effeithio ar weithlu byd-eang y cwmni), nad oedd datgeliadau ychwanegol fel y gofynnwyd amdanynt yng nghynnig y cyfranddalwyr yn ychwanegu gwerth, felly gwnaeth bleidleisio yn ei erbyn. Wedi dweud hynny, bydd Robeco yn parhau i fonitro'r gwaith rheoli a datgelu o amgylch y pwnc hwn wrth symud ymlaen.

Derbyniodd cynnig y cyfranddalwyr gefnogaeth dros 10% ac ni chafodd ei basio.

**Cwmni: Walt Disney Co | Cwmni cyfryngau o'r Unol Daleithiau**
**Dyddiad:** 03 Ebrill 2023
**Pleidlais (rhesymeg a chanlyniad)?**

Pleidleisiodd Robeco yn erbyn y bleidlais ymgynghorol ar ddigolledu swyddogion gweithredol, gan nodi materion yn ymwneud â chyfanswm a strwythur yr iawndal, yn ogystal â datgelu nodau perfformiad yn annigonol.

Derbyniodd cynnig y rheolwyr gefnogaeth o 86% gan gyfranddalwyr.
Barnwyd bod cynigion cyfranddalwyr ynghylch yr Adroddiad ar Weithrediadau Corfforaethol gyda Tsieina a chynnig y cyfranddalwyr ynghylch Datgelu Cyfraniadau Elusennol yn mynd yn groes i egwyddorion ESG, a phleidleisiodd Robeco yn erbyn y ddau. Daeth Robeco i'r casgliad bod y cynigion yn cael eu gyrru gan weithredu gwleidyddol yn hyrwyddo rhethreg a oedd yn groes i egwyddorion ESG ac roedd pryder mai amcan y cynigion oedd rhwystro ymdrechion ESG y cwmni.

Cafodd y ddau benderfyniad oddeutu 7% o gefnogaeth gan gyfranddalwyr.

**Cwmni: Prosus | Cwmni buddsoddi wedi'i restru yn yr Iseldiroedd**

**Dyddiad: 23 Awst 2023**

**Pleidlais (rhesymeg a chanlyniad)?**

Cyflwynodd Prosus gynnig i roi cymeradwyaeth i brynu cyfranddaliadau yn ôl a fyddai'n galluogi'r bwrdd i ailbrynu cyfranddaliadau sy'n cynrychioli hyd at 50% o'r cyfalaf cyfranddaliadau a gyhoeddwyd dros gyfnod o 18 mis. Cefnogodd Robeco y cynnig ynghylch prynu'r cyfranddaliadau yn ôl, gan weld hyn fel ffordd effeithiol o fynd i'r afael â'r gostyngiad llym ym mhrisiad y cyhoeddwr.

Cafodd cynnig y rheolwyr ei basio gyda chefnogaeth dros 91%.

Roedd yna hefyd gynnig gan y rheolwyr i gymeradwyo adroddiad cydnabyddiaeth ariannol y cwmni. Yn dilyn adroddiad y llynedd ar gydnabyddiaeth ariannol, a oedd yn ceisio cymell y tîm gweithredol i leihau'r gostyngiad i werth asedau net, roedd adroddiad cydnabyddiaeth ariannol eleni yn amlinellu'r ffaith fod y gostyngiad wedi gostwng o 54% i 38%. Wedi dweud hynny, methodd Prosus â datgelu'r gostyngiad ex-ante a dargedwyd. Nododd Robeco nad oedd Prosus wedi dyfarnu dyfarniad cymhelliant byrdymor arbennig ar gyfer 2023/24, gan ddyfarnu yn hytrach ddyfarniad cymhelliant hirdymor gyda chymysgedd tebyg i'r blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, ar ôl pwyso a mesur, o ystyried pryderon ynghylch maint cyflog a thryloywder, ac yn unol â fframwaith cydnabyddiaethau Robeco, pleidleisiodd Robeco i beidio â chymeradwyo'r adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol.

ThCafodd cynnig y rheolwyr ei basio gyda chefnogaeth dros 84%.

**Cwmni: Apple | Cwmni technoleg o'r Unol Daleithiau**

**Dyddiad:** 28 Chwefror 2024

**Pleidlais (rhesymeg a chanlyniad)?**

Pleidleisiodd Robeco unwaith eto yn erbyn cynnig y rheolwyr ar 'Say on Pay'. Er bod Robeco yn cydnabod y camau cadarnhaol a gymerwyd o ran lleihau swm taliad y Prif Swyddog Gweithredol (vis-à-vis y llynedd), roedd pryderon strwythurol o hyd ynghylch y polisi digolledu yn fwy cyffredinol. Er enghraifft, mae'r cynllun cymhelliant hirdymor yn seiliedig ar un iawndal metrig yn unig, digolledia uchel ar gyfer perfformiad is na'r canolrif (yn erbyn cymheiriaid), dim cysondeb â metrigau ESG a'r cyfnod breinio byr ar gyfer y dyfarniadau hirdymor sy'n seiliedig ar amser (llai na thair blynedd). Roedd y bleidlais hon yn unol ag argymhelliad LAPFF.

Cafodd cynnig y rheolwyr ei basio gyda dros 92%.

Pleidleisiodd Robeco hefyd yn erbyn ethol dau o gyfarwyddwyr Bwrdd Apple. Nodwyd bod cadeiryddion y pwyllgorau archwilio a digolledu wedi gwasanaethu ar y Bwrdd am fwy na 12 mlynedd, a theimlai Robeco y gallai hyn gyfaddawdu barn wrthrychol cyfarwyddwyr annibynnol.

Cafodd cynigion y rheolwyr eu pasio gydag o leiaf 94%.

Cafodd pum cynnig gan gyfranddalwyr eu rhoi gerbron y cyfarfod. Yn achos tri o'r rhain roedd pryderon mai'r cymhelliant y tu ôl iddynt oedd rhwystro arferion ESG Apple. Pleidleisiodd Robeco yn erbyn y rhain, yn unol â chanllawiau LAPFF.

Derbyniodd y tri chynnig gan gyfranddalwyr lai na 2% o'r bleidlais ac ni chawsant eu pasio.

Roedd y ddau gynnig arall gan gyfranddalwyr yn ymwneud â defnyddio deallusrwydd artiffisial, a thegwch cyflog canolrifol o ran rhywedd a hil, y pleidleisiodd Robeco drostynt ill dau yn unol â chanllawiau LAPFF. Gyda golwg ar ddeallusrwydd artiffisial, roedd y cynnig yn gofyn am ddatgeliadau ar y modd y mae Apple yn defnyddio technoleg deallusrwydd artiffisial a sut y bydd yn gwneud hynny mewn modd cyfrifol lle caiff ei ddefnyddio. Gyda golwg ar amrywiaeth a chynhwysiant, roedd y cynnig yn gofyn am ddatgeliadau ychwanegol i asesu perfformiad Apple o ran amrywiaeth a chynhwysiant, gan gynnwys o amgylch bylchau cyflog heb eu haddasu (asesiad o gyfle cyfartal i rolau â chyflogau uchel).

Er i'r ddau gynnig gan gyfranddalwyr gael cefnogaeth sylweddol (Deallusrwydd Artiffisial: 37.5%; Cydraddoldeb ac Amrywiaeth: 31.1%), nid oedd hyn yn ddigon i'r naill na'r llall basio.

# SUT Y GWNAETHOM YMGYSYLLTU

## Ymgysylltu yn ystod 2023/24




Y rhanbarthau y bu Robeco yn ymgysylltu fwyaf â hwy dros y flwyddyn oedd: Gogledd America (41%), Ewrop (21%) ac Asia ac eithrio Japan (14%), gyda'r rhanbarthau sy'n weddill gyda'i gilydd yn cynrychioli 24% o'r gweithgarwch ymgysylltu.

Mae Robeco yn ymgymryd â thri math o waith ymgysylltu ar ran Partneriaeth Pensiwn Cymru:

- **Gwerth:** dull rhagweithiol, sy'n canolbwyntio ar gyfleoedd hirdymor, o bwysigrwydd ariannol a risgiau a all effeithio ar werthiant.
- **Uwch:** yn canolbwyntio ar gwmnïau sy'n torri normau ymddygiadol gofynnol yn ddifrifol ac yn strwythurol mewn meysydd megis hawliau dynol, llafur, yr amgylchedd a gwrth-lygredd.
- **Nodau Datblygu Cynaliadwy:** gyrru gwelliant clir a mesuradwy yng nghyfraniad cwmni i Nodau Datblygu Cynaliadwy dros dair i bum mlynedd.

Adroddir ar weithgarwch ymgysylltu ar gyfer y flwyddyn hyd at ddiwedd mis Mawrth 2024. Nodwn nad yw Robeco yn gwahaniaethu rhwng natur daliadau yn eu gweithgaredd ymgysylltu, o ystyried eu bod yn cynrychioli nifer o gleientiaid, dewisir dyroddwyr yn seiliedig ar thema, felly byddant yn cynnwys daliadau incwm sefydlog ac ecwiti.

O ystyried natur fyd-eang buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru, cynhaliwyd gweithgarwch ymgysylltu ar draws sawl rhanbarth, gyda'r gweithgarwch wedi'i rannu fel y dangosir uchod.

Ar ran Partneriaeth Pensiwn Cymru, cyflogodd Robeco nifer o wahanol lwybrau ar gyfer ymgysylltu, gan gynnwys galwadau cynhadledd, ysgrifennu llythyrau, negeseuon e-bost a phleidleisio gweithredol. Yn 2023/24 gwelwyd cyfanswm o 540 o weithgareddau ymgysylltu ar draws 148 o gwmnïau, gan gwmpasu ystod eang o themâu fel y dangosir isod.

Engagement theme




Ffynhonnell: Robeco

Engagement route




Ffynhonnell: Robeco

Fel y nodwyd uchod, mae'r themâu eang hyn yn cynnwys ystod o is-themâu ychwanegol, y gwnaed cynnydd amrywiol yn eu herbyn. Yn y tabl isod, rydym yn manylu ar bob thema, nifer y cwmnïau o fewn portffolios Partneriaeth Pensiwn Cymru yr aethpwyd ati i ymgysylltu â hwy ac yn rhoi rhyw arwydd o gynnydd yn erbyn pob thema (fel y mae ar ddiwedd Mawrth 2024) . Mae'r siart hefyd yn nodi nifer y cwmnïau yr ymgysylltwyd â hwy o dan bob thema (dangosir y ffigur mewn cromfachau), gan nodi bod rhai cwmnïau'n cael eu cynnwys o dan sawl thema.

Progress on engagement by theme




Ffynhonnell: Robeco

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn derbyn gwybodaeth sylweddol, gan gynnwys gwybodaeth ar bob thema a manylion y gweithgarwch a wneir bob blwyddyn. Rydym yn crynhoi pum thema isod sydd o ddiddordeb arbennig i PPC, o ystyried ein Themâu Stiwardiaeth a thrafodaethau eraill dros y flwyddyn.

### Hawliau dynol

O dan normau rhyngwladol, mae gan gwmnïau gyfrifoldeb i barchu hawliau dynol, a adlewyrchir yn y gofynion rheoleiddio cynyddol a osodir ar gwmnïau i sicrhau diwydrwydd dyladwy hawliau dynol yn eu gweithrediadau a'u cadwyni cyflenwi, ac i ddarparu datgeliadau ar hyn. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu sawl achos o wrthdaro parhaus a datblygol ar draws y byd. Pan fydd cwmnïau'n methu â rheoli a lliniaru effaith hawliau dynol anffafriol, gall hyn effeithio'n negyddol ar y busnes a'i wneud yn agored i risgiau rheoleiddiol, cyfreithiol ac ariannol a pheryglu enw da. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, lansiodd Robeco'r thema Diwydrwydd Dyladwy Hawliau Dynol mewn Ardaloedd Dan Effaith Gwrthdaro ac Ardaloedd Risg Uchel (CAHRAs) yn 2021. Mae'r thema'n canolbwyntio ar gwmnïau sydd â chysylltiad sylweddol â rhai CAHRAs, gan gynnwys Tiriogaethau Meddianedig Palesteina, Myanmar a Tsieina/Xinjiang. Yn fwy diweddar ychwanegwyd cwmnïau ychwanegol at y thema, o ystyried y gwrthdaro rhwng Rwsia a'r Wcráin a mwy o sylw a roddir ar Xinjiang.

**Astudiaeth achos: Booking Holdings**

Mae Booking Holdings, asiantaeth deithio ar-lein fwyaf y byd yn ôl gwerthiannau, yn rhestru llety mewn ardaloedd lle ceir gwrthdaro megis Tiriogaethau Meddianedig Palesteina. Mae sefydliadau cymdeithas sifil wedi tynnu sylw at sawl mater dadleuol, gan gynnwys diffyg polisi hawliau dynol a datgeliadau Booking Holdings, a oedd yn sail i waith ymgysylltu Robeco â'r cwmni. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r cwmni wedi cyhoeddi polisi hawliau dynol sy'n cyd-fynd â safonau rhyngwladol. Mae'r polisi yn benodol yn cynnwys gofynion diwydrwydd dyladwy uwch ar restrau llety a leolir mewn ardaloedd gwrthdaro. Cyflogodd y cwmni swyddog hawliau dynol hefyd, a fydd yn gyfrifol am integreiddio'r ymrwymiadau hyn, a chynyddodd ei ddatgeliadau ar ei ddull o ymdrin â hawliau dynol a CAHRAs. Yn y dyfodol bydd Robeco yn canolbwyntio ar yn modd y mae Booking Holdings yn gweithredu ei bolisi hawliau dynol.

### Bioamrywiaeth

Mae colli bioamrywiaeth yn cynyddu ar raddfa frawychus, gydag effeithiau'n cael eu teimlo nid yn unig o fewn y byd naturiol ac ecosystemau, ond hefyd o fewn y sector ariannol. Mae astudiaethau wedi dangos bod gan sefydliadau ariannol gannoedd o biliynau o asedau sy'n ddibynnol iawn ar wasanaethau ecosystem (fel darpariaeth dŵr glân). I ddechrau, roedd y thema yn canolbwyntio ar golli bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â datgoedwigo ymhlith cwmnïau sy'n agored i nwyddau risg uchel, ond mae hyn bellach wedi ehangu i gynnwys ymgysylltu â gyrwyr eraill o ran colli bioamrywiaeth (megis llygredd). Mae'r ymgysylltiad yn disgwyl i gwmnïau asesu eu heffeithiau a'u dibyniaethau ar fioamrywiaeth, a gosod strategaeth bioamrywiaeth. Mae Robeco hefyd yn disgwyl adrodd ar ddangosyddion effaith allweddol yn unol â fframweithiau adrodd cydnabyddedig, fel y Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â Natur.

**Astudiaeth achos: Mondelez**

Mondelez o'r UD yw un o gwmnïau byrbrydau mwyaf y byd. Gyda llawer o gynhyrchion y cwmni yn seiliedig ar siocled, mae'r cwmni'n mewnforio llawer o goco, un o'r pum nwydd allweddol sy'n peri risg i goedwigoedd. Mae Robeco wedi bod mewn deialog barhaus gyda'r cwmni i wthio Mondelez ar y mater o integreiddio ei ymdrechion adfer coedwigoedd o fewn ei fodel gweithredu. Yn 2023, o dan fodelau cyrchu coco cynaliadwy newydd y cwmni, mae Mondelez am y tro cyntaf wedi cynnwys targedau adfer clir ar ac oddi ar y fferm. Er bod ardaloedd yr effeithir arnynt yn parhau i fod yn fach o'u cymharu ag ôl troed y cwmni, dyma'r cam cyntaf tuag at ddull bioamrywiaeth mwy uchelgeisiol.

**Astudiaeth achos: Suzano**

Suzano yw cynhyrchydd mwydion a phapur mwyaf Brasil, sy'n cael y rhan fwyaf o'r pren o'i blanhigfeydd ei hun. O dan Weithred Datgoedwigo'r Sector Cyllid, arweiniodd Robeco waith ymgysylltu cydweithredol â'r cwmni, gan gynnwys ymweliad maes â phlanhigfeydd y cwmni ym Mrasil. Mae Suzano yn plannu planhigion yn unig ar dir pori a ddiraddiwyd yn flaenorol ac yn cael asesiadau gwerth cadwraeth uchel ar gyfer pob planhigfa, gan arwain at fod 30-40% o bob llain yn cael ei warchod ar gyfartaledd. Er mwyn gwella gwerth bioamrywiaeth y lleiniau hyn, mae'r cwmni'n mynd ati i gysylltu ardaloedd cadwraeth, trwy fodelau planhigfeydd â gwell bioamrywiaeth ac ymdrechion adfer. Nod y cwmni yw cysylltu hanner miliwn hectar o goedwig frodorol ac mae'n olrhain nifer y mwncïod ar eu tir fel procsi ar gyfer cysylltedd coedwigoedd.

### Llywodraethu

Yn y thema Llywodraethu Corfforaethol mewn Marchnadoedd Datblygol, mae Robeco yn canolbwyntio ar wella tryloywder o amgylch arferion corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys wrth: adrodd, annog cwmnïau i ddarparu adroddiadau ystyrlon a datgelu targedau a fydd yn gwella eu hatebolrwydd; ac wrth ddyrannu cyfalaf, o amgylch eu strategaethau ariannol ac wrth weithredu polisïau cysondeb, er enghraifft o amgylch difidendau.

**Astudiaeth achos: Samsung Electronics**

Mae Robeco wedi bod yn ymgysylltu â Samsung Electronics, cwmni electroneg o Dde Corea ers 2017, gan gynnwys gwella'r modd y mae'n datgelu ei strategaeth anariannol, gwariant cyfalaf a chyfansoddiad y bwrdd. Mae hyn hefyd wedi cynnwys ymgysylltu cydweithredol â buddsoddwyr eraill. Ers dechrau'r gwaith ymgysylltu, mae Samsung wedi cynyddu amrywiaeth a nifer y cyfarwyddwyr annibynnol ar ei fwrdd. Mae'r holl benderfyniadau buddsoddi allweddol bellach yn cael eu hadolygu gan y Bwrdd cyfan, gydag is-bwyllgorau'r bwrdd yn cynnwys cyfarwyddwyr annibynnol yn unig. Dechreuodd Samsung hefyd gyhoeddi ei strategaeth ar gyfer pob un o'i fusnesau ac mae wedi cryfhau ei adroddiadau amgylcheddol.

## Cydnabyddiaeth Gyfrifol i Swyddogion Gweithredol

Lansiodd Robeco ei thema Cydnabyddiaeth Gyfrifol i Swyddogion Gweithredol yn 2020, a oedd yn targedu cwmnïau'r UD ac Ewrop, ac yn canolbwyntio ar: bolisïau a datgeliadau cydnabyddiaeth ariannol; ddangosyddion perfformiad allweddol; a strwythurau cymhelliant. Mae'r modd y mae corfforaethau yn ymagweddu at gyfanswm cyflog cwantwm ac yn ymateb i bleidleisiau 'Say on Pay' yn rhoi mewnwelediad i ba mor dda y mae swyddogion gweithredol yn gweithredu er budd cyfranddalwyr. Mae ymgysylltu ynghylch cydnabyddiaeth swyddogion gweithredol yn helpu i gysoni cymhellion trwy arwain byrddau tuag at ddangosyddion perfformiad allweddol y mae buddsoddwyr hirdymor yn ystyried eu bod yn berthnasol. Gall tynnu sylw at ganlyniadau anfwriadol posibl strwythurau digolledu ecwiti hefyd helpu i osgoi cam-gymell costus a sicrhau cyfeiriadedd rheoli yn y tymor hir.

**Adroddodd Robeco ar yr ymgysylltiadau gyda phob cwmni o fewn y thema. Cafodd pump o'r ymgysylltiadau eu cau fel rhai llwyddiannus, tra cafodd tri eu cau fel rhai aneffeithiol. Parhaodd yr ymgysylltiadau hyd at ddiwedd 2023.**

## Ffasiwn cyflym

Y llynedd, lansiodd Robeco thema ymgysylltu Trawsnewid Ffasiwn, sy'n ceisio helpu i symud y diwydiant o un o 'gymryd, gwneud, gwastraffu' i un sy'n seiliedig ar strwythurau gweithredol mwy cylchol a rheolaeth well mewn cadwyni cyflenwi. Mae Robeco yn credu, 'trwy wthio am strwythurau cynhyrchu a gwerthu mwy cylchol a llai gwastraffus, gall cwmnïau arwain gwelliannau ystyrlon yn yr economi go iawn'. Fel rhan o'r gwaith ymgysylltu mae Robeco wedi datblygu fframwaith cynaliadwyedd, gan raddio cwmnïau o rai sy'n egino i rai sy'n aeddfedu, rhai arloesol ac uwch o ran pa mor dda y maent yn integreiddio ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol yn eu modelau busnes. Mae Robeco yn cydweithio â Platform Living Wage Financials i fynd i'r afael â rhai o'r risgiau cymdeithasol yn y diwydiant, ar faterion megis llafur plant, gwahaniaethu ar sail rhyw a chyflogau byw.

## Arferion llafur mewn byd ôl-Covid

Yn 2021, yn dilyn y pandemig Covid, dechreuodd Robeco gyfres o ymgysylltiadau gyda'r cwmnïau y cafodd y pandemig yr effeithiau mwyaf arnynt, yn y sectorau cyflenwi bwyd ar-lein, gwestai ac adwerthu bwyd. Roedd y thema yn ymwneud â meysydd megis y bwlch mewn cyflog byw a chytundebau buddion cymdeithasol gyda gweithwyr. Roedd cwmnïau hefyd yn wynebu newidiadau rheoleiddiol, gyda llywodraethau'n gweithredu ar bryderon ynghylch arferion llafur ac yn cyflwyno gofynion yn ymwneud â chontractau cyflogwyr/gweithwyr. Roedd y gwaith ymgysylltu yn ceisio trafod risgiau llafur ac annog arferion llafur cyfrifol, yn enwedig ymhlith gweithwyr agored i niwed.

Dros y tair blynedd, gwelodd Robeco fod nifer o gwmnïau yn gwneud cynnydd yn erbyn yr amcanion - deialog gymdeithasol; cyflogau a buddion; iechyd a diogelwch galwedigaethol; rheolaeth ddynol-gyfalafol; llywodraethu cymdeithasol; tryloywder – gan gynnwys eu hatebolrwydd ar draws eu gweithlu anuniongyrchol. Fodd bynnag, canfu Robeco fod nifer o bryderon strwythurol yn parhau, gyd chyfradd lwyddiant yr ymgysylltiad cyffredinol o 57% yn adlewyrchu'r ffaith bod angen gwneud mwy o waith i newid strwythurau gweithredol gwaelodol. Yn ystod y flwyddyn llofnododd Robeco lythyr ar y cyd at Fwrdd Safonau Cynaliadwyedd Rhyngwladol Sefydliad IFRS yn gofyn iddo roi blaenoriaeth i ddatblygu safon adrodd fyd-eang i gwmnïau er mwyn datgelu ar gyfalaf dynol a hawliau dynol. Er bod y thema ymgysylltu hon bellach wedi cau, bydd Robeco yn parhau i ymgysylltu â'r materion hyn, er enghraifft, trwy ei waith gyda'r Tasglu ar Anghydraddoldeb a Datgeliadau Ariannol Cymdeithasol.

## Ymgysylltu â sector dŵr y DU

Mae sector dŵr y DU wedi bod yn destun craffu yn ddiweddar ynghylch pryderon ariannol, llywodraethu ac amgylcheddol. Mae hyn wedi arwain at achos grŵp parhaus yn erbyn cwmnïau o fewn y sector, sy'n cael eu cyhuddo o beidio rhoi gwybod yn llawn am lygredd carthion a chodi gormod ar gwsmeriaid. Gofynnodd Partneriaeth Pensiwn Cymru am farn gan ei Ddarparwyr Gwasanaethau ar eu hymdrechion stiwardiaeth yn y sector, a amlinellir gennym isod.

### Fidelity

Mae Fidelity yn un o'r rheolwyr gwaelodol yn Is-gronfa Credyd Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn ogystal â'r unig reolwr yn Is-gronfa Credyd Sterling. O ystyried ei brofiad yn y farchnad incwm sefydlog a'r nifer o bryderon ariannol am gyfleustodau dŵr a nodwyd yn gysylltiedig â chyhoeddi dyledion, roedd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn croesawu mewnbwn gan y rheolwr.

Mae Fidelity yn tynnu sylw at gefndir hanesyddol sector dŵr y DU, gan fod y seilwaith ei hun o ddyluniad Fictoraidd a chafodd y system gyfreithiol, a gynlluniwyd i atal llifogydd ond sy'n golygu bod carthffosiaeth gormodol yn llifo i ddyfrffyrdd, ei chynllunio cyn preifateiddio'r sector. Mae pwysau cynyddol, gan gynnwys poblogaeth sy'n tyfu, newid yn yr hinsawdd a threfoli, wedi arwain at achosion cynyddol o lygredd.

Yn sgil ei waith ymgysylltu â chwmnïau yn y sector mae Fidelity wedi cael ei galonogi bod cynnydd yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r materion. Dangoswyd bwriad cwmnïau i unioni'r pryderon a amlygwyd, gyda chyhoeddwyr yn fwy rhagweithiol wrth fynd i'r afael â risgiau. Mae Fidelity yn defnyddio ei safle fel deiliad bond i yrru arfer gwell ar draws y diwydiant.

### Robeco

Mae Robeco wedi bod yn ymgysylltu â Severn Trent o dan y thema Rheoli Adnoddau Naturiol.

**Cefndir:** Mae'r cwmni dŵr o'r DU yn cyflenwi 4.6 miliwn o gartrefi a busnesau ledled Canolbarth Lloegr a Chymru. Mae ei gymheiriaid yn y diwydiant wedi dod o dan bwysau difrifol oherwydd perfformiad gwael wrth fynd i'r afael â gollyngiadau a halogi yn sgil carthion.

**Camau a gymerwyd:** Dechreuodd Robeco ymgysylltu gyda Severn Trent ynghylch rheoli dŵr a gwastraff i gefnogi'r rheolwyr gyda'r pryderon parhaus yn ymwneud â digwyddiadau llygredd yn y DU, gollyngiadau carthion a rheoli ansawdd dŵr afonydd.

**Canlyniadau:** Yn ystod y ddeialog hon cyflwynodd y cwmni ei dargedau lleihau gollyngiadau carthion a gollyngiadau ar gyfer 2025. Nod Severn Trent yw lleihau gollyngiadau carthion i 20 y flwyddyn ar gyfartaledd, tra bod y cynllun yn bwriadu sicrhau gostyngiad o 15% mewn gollyngiadau erbyn 2025. Mae'r cwmni eisoes yn arwain y sector gyda golwg ar ddigwyddiadau llygredd llwyr a difrifol. Teimlai Robeco, gan fod y targedau newydd hyn hefyd yn cadarnhau ymrwymiad y cwmni i barhau i fod orau yn y dosbarth, y gellid cau'r ymgysylltiad yn llwyddiannus.

### LAPFF

**Cefndir:** Mae LAPFF wedi bod yn ymgysylltu â chyfleustodau dŵr ers 2022, yn dilyn pryderon am lygredd afonydd ac ardaloedd arfordirol a achosir gan orlifiadau stormydd. Defnyddir gorlifiadau stormydd i sicrhau nad yw carthion yn llifo yn ôl i mewn i gartrefi ar adegau o law trwm. O dan gynlluniau'r llywodraeth hyd at 2050, disgwylir i nifer y digwyddiadau gorlifo ostwng dros amser, a bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy fuddsoddiad ychwanegol. Fel sector sy'n cael ei reoleiddio'n fawr, rhaid i'r buddsoddiad ychwanegol hwn fynd trwy broses adolygu gydag Ofwat bob pum mlynedd. Mae bodloni amcanion amgylcheddol a osodwyd o dan y cynlluniau pum mlynedd nid yn unig yn effeithio ar enw da, ond fel system reoledig, mae'r canlyniadau perfformiad hyn hefyd yn arwain at naill ai ddyfarniadau ariannol neu gosbau.

**Camau a gymerwyd:** Fel rhan o'i waith ymgysylltu, mae LAPFF eisiau sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud i leihau nifer y gorlifiadau ac y bydd y cynlluniau busnes pum mlynedd nesaf yn cael eu cyflawni'n gost effeithlon wrth gyflawni ymrwymiadau amgylcheddol a chymdeithasol ehangach. Cynhaliwyd gwaith ymgysylltu eleni yn erbyn cefndir o dywydd llawer gwlypach a arweiniodd at gynnydd mewn gorlifiadau. Serch hynny, roedd LAPFF eisiau deall a oedd y cwmnïau ar y trywydd iawn i gyrraedd eu targedau o gyrraedd cyfartaledd o ddim mwy nag 20 o ddigwyddiadau fesul gorlif y flwyddyn erbyn 2025. Cyfarfu LAPFF â nifer o gynrychiolwyr dros y flwyddyn i drafod yr heriau amgylcheddol ac ariannol sy'n parhau yn sector cyfleustodau dŵr y DU a sut maent yn bwriadu mynd i'r afael ag uchelgeisiau tymor hwy, gan gynnwys targedau gorlifo.

**Canlyniad:** Bydd LAPFF yn parhau i ymgysylltu â'r cwmnïau i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn eu targedau ar orlifiadau. Bydd LAPFF hefyd yn dilyn y penderfyniadau terfynol gan y rheoleiddiwr ac yn sicrhau y bydd cynlluniau'n cael eu cyflawni'n gost effeithlon er budd cyfranddalwyr a'u rhanddeiliaid ehangach.

## Cyflawnir gwaith ymgysylltu ychwanegol gan Russell

While Robeco formally carries out WPP's stewardship function, WPP also benefits from the stewardship activity Russell undertakes with the portfolio holdings in WPP Sub-Funds. Russell has six engagement focus areas, which align with WPP's views, including as defined by WPP's voting priorities. These focus areas are:

| Maes | Ffocws |
|---|---|
| Yr Amgylchedd | **Cyfalaf Naturiol:** annog rheolaeth amgylcheddol gyfrifol a'r defnydd cynaliadwy o adnoddau ar draws cadwyn werth cwmni<br>Y gallu i wrthsefyll newid hinsawdd: hybu mwy o dryloywder ynghylch datgeliadau ac arferion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys sut y gallai risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd effeithio arnynt; sut y maent wedi ymgorffori newid hinsawdd yn eu strategaeth; a sut y maent yn sicrhau bod manteision newid i sero net yn cael eu rhannu, a hynny gan gefnogi'r rheiny y mae'r newid yn cael yr effaith fwyaf arnynt |
| Cymdeithasol | **Cyfalaf dynol:** Gweithredu ar sut y mae cwmnïau'n denu, yn datblygu ac yn cadw gweithwyr wrth ddarparu amodau gwaith priodol<br>**Amrywiaeth a Chynhwysiant:** Cynyddu ymwybyddiaeth o effaith amrywiaeth ar berfformiad a diwylliant buddsoddi cwmni |
| Llywodraethu | **Cyfansoddiad y bwrdd ac atebolrwydd:** gweithredu bwrdd cyfarwyddwyr, sy'n ganolbwynt llywodraethu corfforaethol, gan sicrhau bod byrddau yn hyrwyddo budd gorau'r cwmni yn y tymor hir a hynny gan roi sylw dyledus i randdeiliaid<br>**Digolledu swyddogion gweithredol:** cysoni digolledu swyddogion gweithredol gyda phwrpas corfforaethol, gan sicrhau bod polisïau cydnabyddiaeth ariannol wedi'u cynllunio'n dda i osgoi cymryd risgiau gormodol ac annoeth |

Mae Russell yn dilyn proses debyg i Robeco wrth nodi, cychwyn, gweithredu a gwerthuso eu gweithgarwch ymgysylltu. Mae Russell yn cymryd ymagwedd aml-sianel tuag at ymgysylltu:

- Ymgysylltu â dyroddwyr yn uniongyrchol
- Ymgysylltu drwy a chydag is-reolwyr fel partneriaid
- Uno ymdrechion ymgysylltu cydweithredol gyda chyfranogwyr trydydd parti'r farchnad

TMae'r is-reolwyr sylfaenol o fewn Is-Gronfeydd PPC hefyd yn gweithredu eu rhaglenni ymgysylltu eu hunain, yn unol ag amcanion penodol y mandad dan sylw. Mae hyn yn elwa o ddull 'gweithredol dwbl', lle bydd Russell a'r is-reolwyr sylfaenol yn ymgysylltu â dyroddwyr, gyda Russell yn monitro gweithgaredd Is-Gronfa yn fewnol trwy ei allu goruchwylio gwell.

**Newid yn yr Hinsawdd**

Mae Russell wedi bod yn ymgysylltu ag enw diwydiannol o'r Unol Daleithiau i wella tryloywder yn ei strategaeth newid hinsawdd, yn unol â strategaeth lliniaru hinsawdd fyd-eang y cwmni: dileu (prif ffocws); lleihau; amnewid; gwrthbwyso. Mae'r gwaith ymgysylltu parhaus yn canolbwyntio ar dryloywder ynghylch ymdrechion lleihau allyriadau (gan gynnwys Cwmpas 3) trwy annog camau mesuradwy penodol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Y disgwyl yw y bydd adroddiad cynaliadwyedd nesaf y cwmni yn rhoi mwy o eglurder ar eu strategaeth ddatgarboneiddio ac y bydd mwy o ymdrechion i sicrhau goruchwyliaeth effeithiol o ran yr hinsawdd ar lefel y bwrdd.

**Rheoli cyfalaf dynol**

Ymgysylltodd Russell Investments â chwmni meddalwedd a gwasanaethau rhyngrwyd mawr o'r Unol Daleithiau ynghylch ei arferion rheoli cyfalaf dynol, gan geisio gwella tryloywder ac atebolrwydd. Ers i'r gwaith ymgysylltu ddechrau yn 2022, mae'r enw wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran adrodd a thryloywder. Un maes y bu Russell yn ymgysylltu yn ei gylch oedd data sy'n gysylltiedig â diogelwch, gan nodi bod hyn yn cael ei ddarparu ar gylch tair blynedd, gan gwmpasu'r Unol Daleithiau yn unig, a bod oedi o ddwy flynedd wrth adrodd. Felly, gofynnodd Russell am ddata interim mwy diweddar a oedd yn cwmpasu gweithrediadau byd-eang y cwmni. Mae Russell yn nodi bod y cwmni'n cynnal asesiad hawliau sifil trydydd parti annibynnol i fynd i'r afael â phryderon diogelwch a bydd yn parhau i ymgysylltu â'r enw ynghylch tryloywder o ran arferion iechyd a diogelwch yn benodo.

## Ymgysylltu â phartïon eraill

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill, gan geisio ymgysylltu'n adeiladol lle bynnag y bo modd. Yn ystod y flwyddyn parhaodd Partneriaeth Pensiwn Cymru â'n gwaith ymgysylltu rheolaidd â Chyfeillion y Ddaear Cymru i drafod dull a chynnydd y Bartneriaeth ynghylch buddsoddi cyfrifol, a'r hinsawdd yn benodol. Bu'r Bartneriaeth hefyd yn ymgysylltu â Maint Cymru ynghylch risg datgoedwigo. Ymatebodd y Bartneriaeth i ymgynghoriad y llywodraeth ar fuddsoddiadau yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gan gynnwys o amgylch cronni, codi'r gwastad, adrodd a buddsoddiadau ar draws cronfeydd cyfunol. Cymerodd y Bartneriaeth ran hefyd yn Arolwg Adnoddau Stiwardiaeth Byd-eang PRI y Cenhedloedd Unedig.



# SUT YR YDYM YN UWCHGYFEIRIO PRYDERON

Gall Partneriaeth Pensiwn Cymru uwchgyfeirio materion sy'n peri pryder yn uniongyrchol gyda Darparwyr Gwasanaethau er mwyn iddynt fynd i'r afael â hwy, ond mae hefyd yn dibynnu ar Ddarparwyr Gwasanaethau i uwchgyfeirio materion lle nad yw cynnydd yn cael ei wneud yn ystod y broses ymgysylltu. Mae'r craffu parhaus gan RISG yn cynnig fforwm ar gyfer trafod ac uwchgyfeirio, er y gall uwchgyfeirio godi yn yr un modd oherwydd trafodaeth mewn fforymau eraill.

## Uwchgyfeirio gan Robeco

Mae'r Bartneriaeth yn nodi bod yna sawl enghraifft o uwchgyfeirio a wnaed gan Robeco yn ei weithgarwch ymgysylltu dros y cyfnod adrodd, a amlygir gennym isod.

**Astudiaeth achos: uwchgyfeirio pryderon ynghylch cydnabyddiaeth ariannol mewn cwmnïau technoleg o'r Unol Daleithiau**

**Oracle (UD, 15 Tachwedd 2023)**

Bu cryn graffu ar arferion cydnabyddiaeth ariannol y cwmni technoleg o'r Unol Daleithiau, Oracle dros y blynyddoedd diwethaf. Er bod Robeco yn nodi bod yr arferion wedi gwella yn ddiweddar, gan gynnwys ehangu polisi adfachu'r cwmni, nid oedd hyn yn ddigon i gefnogi'r cynnig Say on Pay. Ymhlith pryderon Robeco oedd natur ddewisol y dyfarniadau cymhelliant hirdymor i rai swyddogion gweithredol. Cafodd hyn ei gyplysu â chysoni cyflog/perfformiad, a'r dyfarniadau opsiwn stoc seiliedig ar berfformiad ar gyfer Prif Swyddog Gweithredol a Phrif Swyddog Technegol Oracle. I uwchgyfeirio pryderon, dewisodd Robeco bleidleisio yn erbyn ailethol holl aelodau'r pwyllgor cydnabyddiaeth ariannol. Cafodd yr etholiadau pwyllgor cydnabyddiaeth gefnogaeth o leiaf 76%, tra cafodd y cynnig Say on Pay ei basio gyda 73% o'r bleidlais (i fyny o 67% yn 2022).

**Electronic Arts (UD, 10 Awst 2023)**

Yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol Electronic Arts 2023 bu craffu ar nifer o bynciau llywodraethu. Mae Robeco wedi pleidleisio yn erbyn cynllun digolledu swyddogion gweithredol Electronic Arts ar sawl achlysur yn olynol, gan ystyried ei fod yn ormodol a bod ganddo strwythur gwaelodol annigonol. Roedd hynny hefyd yn wir y tro hwn, gyda'r cynllun arfaethedig eleni yn parhau i arddangos y nodweddion hyn. Cafodd cynnig y rheolwyr ei basio gyda chefnogaeth dros 92%. Er mwyn uwchgyfeirio pryderon ynghylch cydnabyddiaeth swyddogion gweithredol, pleidleisiodd Robeco hefyd yn erbyn cadeirydd y pwyllgor digolledu am yr eildro. Cafodd cynnig y rheolwyr ei basio gyda chefnogaeth dros 96%.

**Agilent Technologies (UD, 28 Medi 2023)**

Roedd Robeco wedi pleidleisio yn erbyn cynnig Say-on-Pay yr enw technoleg am y drydedd flwyddyn yn olynol, o ystyried pryderon ynghylch tâl yn anghyson â pherfformiad. Er mwyn uwchgyfeirio pryderon, yn 2023 pleidleisiodd Robeco yn erbyn cadeirydd y pwyllgor cydnabyddiaeth ariannol. Estynnodd yr enw allan i drafod rhaglen ddigolledu'r cwmni ar alwad gynadledda. Bydd Robeco yn parhau i fonitro arferion a bydd yn adrodd ar unrhyw welliannau.

**Astudiaeth achos: uwchgyfeirio pryderon ynghylch yr hinsawdd**

**Y Mater:** Cwmni ariannol o'r Unol Daleithiau yn sgorio'n wael o ran perfformiad hinsawdd (lliniaru risg, gosod targedau, rheoli cyfleoedd).

**Y Camau a Gymerwyd:** Mae Robeco yn defnyddio asesiad goleuadau traffig i sgorio cwmnïau yn ôl perfformiad hinsawdd, gan edrych ar uchelgais ar dargedau a'r camau pendant sy'n gysylltiedig â strategaeth ddatgarboneiddio cwmni. Sgoriodd enw cyllid yr Unol Daleithiau yn wael ar y ddau, gydag ychydig iawn o ddatgeliad ynghylch asesu a rheoli risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, a dim targedau nwyon tŷ gwydr wedi'u gosod. Felly cyd-ffeiliodd Robeco gynnig cyfranddalwyr yn canolbwyntio ar y modd yr oedd y pwyllgor archwilio yn goruchwylio risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a sut y cafodd hyn ei adlewyrchu yn yr adroddiadau a'r cyfrifon blynyddol.

**Canlyniad:** Er mai dim ond 17% o gefnogaeth a gafodd y cynnig gan gyfranddalwyr, oherwydd perfformiad gwael parhaus y cwmni daeth y gwaith ymgysylltu (o dan y thema Canolbwyntio ar Sero Net) i ben yn aflwyddiannus, gyda'r cwmni bellach yn cymryd rhan o dan y gwaith ymgysylltu uwch Cyflymu tuag at Gytundeb Paris.

**Astudiaeth achos: uwchgyfeirio pryderon am hawliau dynol**

**Y Mater:** Cwmni awyrofod ac amddiffyn o'r UD sy'n gysylltiedig â thorri hawliau dynol yn y Dwyrain Canol o dan raglen gwerthu arfau llywodraeth yr UD.

**Y Camau a Gymerwyd:** Ers 2022 mae Robeco wedi estyn allan i'r cwmni ynghylch ei ymagwedd tuag at hawliau dynol, gan gynnwys cais am alwad gynadledda, i ddeall diwydrwydd dyladwy'r cwmni wrth sicrhau defnydd cyfrifol o'i gynhyrchion mewn ardaloedd dan effaith gwrthdaro. Roedd natur y gwaith ymgysylltu yn ymwneud yn benodol â'r defnydd o gynhyrchion y cwmni mewn ymyriadau milwrol yn Yemen a'r mater hawliau dynol cysylltiedig, gan gynnwys troseddau rhyfel posibl. Er bod y cwmni wedi bod yn barod i gyfathrebu, nid oedd wedi ymrwymo i geisiadau fwy nag unwaith gan Robeco am alwad gynadledda. Ar ddechrau'r flwyddyn anfonodd Robeco lythyr uwchgyfeirio, a oedd yn ailadrodd y pryderon ac yn gofyn am alwad.

**Canlyniad:** Cytunodd y cwmni i alwad, yn dilyn diwedd y flwyddyn, lle roedd yn amlinellu asesiadau a mesurau lliniaru risgiau hawliau dynol. Er bod Robeco yn cydnabod gwelliant yn arferion y cwmni o gymharu â dechrau'r cyfnod ymgysylltu, mae wedi gofyn am fwy o wybodaeth am gamau lliniaru a strategaethau hawliau dynol. Mae'r ymgynghoriad yn parhau tan 2025.

## Uwchgyfeirio gydag eraill

**Astudiaeth achos: gweithio gyda LAPFF i uwchgyfeirio pryderon**

Cyflwynwyd cyfle i Bartneriaeth Pensiwn Cymru gyd-ffeilio cynnig cyfranddalwyr ar reoli risgiau dŵr mewn cwmni mwyngloddio byd-eang yn ei gyfarfod cyffredinol blynyddol sydd ar ddod. Wrth ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoeddwr ar elfennau sylweddol y cynnig cyfranddalwyr, cafwyd deialog adeiladol a arweiniodd at fod y cwmni yn cyhoeddi adroddiad dŵr mewn perthynas ag un o'i fwyngloddiau. O ystyried y cynnydd cadarnhaol a wnaed, penderfynodd LAPFF felly beidio â ffeilio'r cynnig cyfranddalwyr yn 2024. Yn hytrach, bydd yn monitro cynnydd ac yn dilyn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2024 yn ystyried a oes angen symud ymlaen â'r cynnig cyfranddalwyr yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2025. Yn gadarnhaol, o ran cydweithio, dywedodd cynrychiolwyr LAPFF fod 15 o gronfeydd aelodau wedi dangos diddordeb mewn cyd-ffeilio.

# Egwyddorion uwchgyfeirio Partneriaeth Pensiwn Cymru

Tan y llynedd, nid oedd Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi nodi'n benodol ei hymagwedd ei hun tuag at uwchgyfeirio. Yn hytrach, roedd hyn yn cael ei ddefnyddio'n uniongyrchol gan reolwyr buddsoddi Robeco a Phartneriaeth Pensiwn Cymru. Yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid, datblygodd Partneriaeth Pensiwn Cymru gyfres o egwyddorion uwchgyfeirio ar y cyd â'i darparwyr gwasanaethau, sydd bellach wedi'u hymgorffori ym Mholisi Stiwardiaeth y Bartneriaeth:

- Dylid cyfathrebu'r targed a'r amcanion ymgysylltu yn glir ac yn rheolaidd rhwng partïon
- Dylid gosod nodau'r gwaith ymgysylltu yn erbyn yr achos buddsoddi parhaus ar gyfer y daliad
- Dylid rhoi gwybod am gynnydd i'r holl randdeiliaid
- Dylid nodi'n glir y camau uwchgyfeirio sy'n cael eu cymryd gan gynrychiolwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ystod yr ymgysylltu
- Dylai gwaith ymgysylltu (uwch) yr adroddir ei fod wedi methu gan Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu Partneriaeth Pensiwn Cymru sbarduno mwy o adrodd parhaus gan Reolwyr Buddsoddi'r Bartneriaeth
- Dylai Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu Partneriaeth Pensiwn Cymru barhau i wneud argymhellion pleidleisio ar stociau sy'n cael eu cadw ar ôl ymgysylltu aflwyddiannus
- Er y bydd Rheolwyr Buddsoddi Partneriaeth Pensiwn Cymru, fel ymddiriedolwr, yn cadw cyfrifoldeb am bob penderfyniad gwerthu, bydd dadfuddsoddi yn cael ei ystyried os bydd uwchgyfeirio yn methu

Un bwlch a nodwyd yn y broses stiwardiaeth a ddylai helpu i hwyluso'r broses o gymhwyso'r egwyddorion fu ynghylch tryloywder rhwng Darparwyr Gwasanaethau. Nodwyd bod diffyg gweledegdd cyson rhwng Darparwyr Gwasanaeth ym mha waith stiwardiaeth oedd yn cael ei wneud ganddynt. Ers hynny, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi cynnal ymarfer mapio fel sail ar gyfer cydweithredu a rhannu gwybodaeth. Bydd hyn yn helpu Partneriaeth Pensiwn Cymru i fod yn fwy rhagweithiol wrth geisio mewnbwn gan ei rheolwyr asedau gwaelodol mewn achosion lle nad yw ymgysylltu (yn benodol y gwaith ymgysylltu uwch) yn symud ymlaen yn ôl y disgwyl. Bydd hyn hefyd yn sicrhau cysondeb o ran deialog a chanlyniad ymgysylltu, ac yn tynnu sylw at fannau lle nad yw hyn yn wir.

### Background

Er nad yw Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi mabwysiadu polisi gwahardd o fewn ei threfniadau buddsoddi yn gyffredinol, mae'r Bartneriaeth o'r farn na ddylai'r broses stiwardiaeth fod heb ganlyniad, yn enwedig pan ystyrir bod ymgysylltu wedi bod yn aflwyddiannus. Gall ymgysylltu aflwyddiannus gynnwys diffyg ymatebolrwydd gan y cyhoeddwr, methiant i gydnabod y pryderon a godwyd o fewn y gwaith ymgysylltu neu wrthod mynd i'r afael yn ddigonol â'r pryderon a godwyd. Ym mhob achos, bydd llwyddiant yn edrych yn wahanol. Er enghraifft, byddai'r cwmni yn mynd i'r afael â'r meini prawf llwyddiant ar gyfer gwaith ymgysylltu sy'n gysylltiedig â datgelu trwy gytuno i adrodd ar y wybodaeth y gofynnwyd amdani. Fodd bynnag, byddai'r meini prawf llwyddiant ar gyfer achos o dorri hawliau dynol yr adroddwyd amdano yn wahanol. Efallai bod y cwmni'n cydnabod yr adroddiad (y gallent fod yn ei ddadlau) neu fod y cwmni'n cymryd rhyw fath o gamau.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod bod ganddo nifer o ffyrdd sydd ar gael iddo i gymryd camau pellach mewn sefyllfaoedd lle bernir bod yr ymgysylltu wedi bod yn aflwyddiannus. Er nad yw'n rhestr gynhwysfawr, yn y lle cyntaf, gall y Bartneriaeth geisio uwchgyfeirio pryderon ymhellach trwy:

- Cymryd rhan mewn gwaith ymgysylltu ar y cyd â buddsoddwyr eraill o'r un anian i fynd i'r afael â phryderon;
- Mynegi pryderon yn benodol mewn gohebiaeth ysgrifenedig gyda'r Bwrdd;
- Defnyddio pleidleisio trwy ddirprwy fel offeryn ar gynigion cysylltiedig neu fel y maent yn ymwneud ag enwebiadau perthnasol y Bwrdd;
- Ffeilio penderfyniadau cyfranddalwyr sy'n mynd i'r afael â phryderon yn uniongyrchol.

Nod y polisi yw peidio â dweud pa fath o uwchgyfeirio a fydd yn digwydd ym mhob sefyllfa, ond cydnabod bod yna amrywiaeth o ffurfiau posibl o uwchgyfeirio sy'n briodol i wahanol amgylchiadau, y gellir defnyddio rhai neu bob un ohonynt.

### Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach ar y modd y bydd yr egwyddorion hyn yn cael eu cyflawni'n ymarferol, trefnodd Partneriaeth Pensiwn Cymru weithdy gyda'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn dilyn diwedd y flwyddyn. Roedd hon yn ddeialog gadarnhaol ac yn darparu fforwm ar gyfer mewnbwn rhanddeiliaid, gyda'r bwriad o drefnu gweithdai tebyg yn rheolaidd. Bydd y polisi yn cael ei adolygu eto yn 2025, gan ganiatáu i brofiad gael ei ystyried a diweddaru'r polisi, os oes angen.

# BETH NESAF?

Rydym yn cydnabod mai un o gryfderau unigryw Partneriaeth Pensiwn Cymru yw'r lefel o gydweithio sy'n bodoli rhwng holl gronfeydd CPLlL sylfaenol y Gronfa. Hoffem ddiolch i bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol am eu cyfraniad a'u cefnogaeth barhaus i ddatblygu ein gwaith ar Fuddsoddi Cyfrifol, stiwardiaeth, ac wrth lywio trafodaethau trwy'r RISG. Credwn y gallwn barhau i adeiladu ar yr hyn sy'n sylfaen gadarn, yn enwedig o ran:

- Cronfeydd goddefol
- Incwm sefydlog cynaliadwy
- Stiwardiaeth hinsawdd: rhestr ffocws y fframwaith
- Nod hinsawdd a chynlluniau pontio
- Fframwaith monitro rheolwyr
- Datblygiad yr adroddiadau risg hinsawdd ac ESG
- Lansio eiddo tirol
- Effaith a chodi'r gwastad
- Egwyddorion uwchgyfeirio

Er bod y bwriadau a amlinellwyd uchod i gyd wedi'u datblygu mewn rhyw ffordd ar ôl diwedd y flwyddyn, gobeithiwn y gallwn barhau i symud ymlaen nid yn unig yn y meysydd hyn, ond yn yr holl waith a wnawn fel Cronfa. Edrychwn ymlaen at gydweithio pellach dros y 12 mis nesaf!



# ATODIAD 1: CRYNODEB ADOLYGU'R POLISI

Yn y tablau isod: ● mae yn dangos bod yr ymrwymiad wedi'i gyflawni; ● mae yn dangos y gwnaed peth cynnydd yn erbyn yr ymrwymiad; ● mae yn dangos na wnaed unrhyw gynnydd.

## Polisi Buddsoddi Cyfrifol

| Statws | Cyf | Ymrwymiad/Datganiad Polisi |
|---|---|---|
| ● | 3.3 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymgysylltu gydag Awdurdodau Cyfansoddol o leiaf yn flynyddol i benderfynu ar eu gofynion buddsoddi unigol a'u dyheadau mwy hirdymor. |
| ● | 3.4 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ystyried cyfleoedd yn deillio o gael gwell dealltwriaeth o ffactorau ESG. |
| ● | 4.3 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymgysylltu gyda'i darparwyr i sicrhau y gellir datblygu mecanwaith cyffredin ar gyfer monitro risgiau yn gysylltiedig â hinsawdd ar gyfer holl asedau Partneriaeth Pensiwn Cymru. |
| ● | 4.4 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn annog, trwy ei chynrychiolwyr, pob cwmni y buddsoddir ynddynt i ddatgelu yn unol â gofynion y TCFD. |
| ● | 5.3 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymdrechu i nodi ac ymgysylltu â sefydliadau ar faterion hawliau dynol trwy aelodaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru o LAPFF a thrwy'r gweithgaredd ymgysylltu a wneir gan Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu Partneriaeth Pensiwn Cymru. |
| ● | 5.4 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn adrodd ar sut mae gweithgarwch ymgysylltu a wneir gan ei gynrychiolwyr wedi mynd i'r afael â materion hawliau dynol yn flynyddol. |
| ● | 7.1, 7.3 | Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn disgwyl y bydd yr holl reolwyr buddsoddi a gyflogir o fewn y Bartneriaeth yn rhoi ystyriaeth briodol i'r holl risgiau yn gysylltiedig â hinsawdd a risgiau ESG eraill wrth wneud penderfyniadau yn eu priod bortffolios. |
| ● | 7.2 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymgysylltu â'i reolwyr buddsoddi yn barhaus i sicrhau bod ffactorau ESG yn cael eu hadlewyrchu'n dryloyw mewn prosesau gwneud penderfyniadau ac y gellir darparu tystiolaethu iawn o'r dull a gymerwyd i reoli ffactorau ESG. |
| ● | 8.4 | Mae'r Bartneriaeth yn disgwyl, yn yr holl amgylchiadau perthnasol, y bydd ei rheolwyr buddsoddi yn llofnodi'r Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol a Chôd Stiwardiaeth Cyngor Adrodd Ariannol y DU. |
| ● | 8,5 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymgysylltu gyda'i rheolwr buddsoddi goddefol i ystyried sut y gellir ymestyn egwyddorion pleidleisio'r Bartneriaeth i gynnwys asedau a reolir gan ei rheolwr buddsoddi goddefol. |
| ● | 8.6 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn derbyn adroddiad ar yr holl weithgarwch pleidleisio, gan gynnwys manylion am unrhyw bleidleisiau na fwriwyd mohonynt ac esboniadau pan na fwriwyd pleidleisiau yn unol â'r egwyddorion y cytunwyd arnynt bob chwarter. Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn trafod unrhyw faterion sy'n peri pryder gyda'i Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, Rheolwyr Buddsoddi neu gynrychiolwyr eraill yn ôl yr angen. |
| ● | 8.8, 8.9 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn adolygu'r Polisi Pleidleisio ar y cyd â'i Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, ei hymgynghorwyr a'i rheolwyr buddsoddi yn flynyddol. |
| ● | 8.12 | Ni fydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn rhoi benthyg 100% o'r daliad mewn unrhyw stoc sengl, felly gall Partneriaeth Pensiwn Cymru fynegi ei barn a gwneud safiad polisi ar unrhyw bwnc y mae'n ei ystyried o werth drwy ei hawl i bleidleisio. Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i fonitro effaith y safbwynt polisi hwn dros amser ac yn adolygu ei pholisi os oes angen. |
| ● | 9.1 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn derbyn adroddiadau ar unrhyw waith ymgysylltu a wnaed gan ei rheolwyr buddsoddi yn flynyddol. |

## Polisi Buddsoddi Cyfrifol

| Statws | Cyf | Ymrwymiad/Datganiad Polisi |
|---|---|---|
| ● | 9.3 | Ar y cyd â'i Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn asesu cyfleoedd cydweithio posibl yn barhaus, a bydd yn llywio ac yn ceisio mewnbwn gan yr Awdurdodau Cyfansoddol ar unrhyw gyfle o'r fath y mae'n ei ystyried yn berthnasol. |
| ● | 9.4 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn annog rheolwyr buddsoddi gwaelodol i gymryd rhan mewn gwaith ymgysylltu cydweithredol neu gefnogi hyn lle ystyrir ei fod er budd ariannol cyffredinol pennaf yr Awdurdodau Cyfansoddol. |
| ● | 9.5 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i gydweithio gyda'r prosiect cydweithredol mewn buddsoddi cyfrifol ar draws cronfeydd pan ddaw unrhyw gyfle addas i wneud hynny. |
| ● | 10.1 | Mewn ymgynghoriad ag Awdurdodau Cyfansoddol, Cynghorwyr a Rheolwyr Buddsoddi, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi datblygu metrigau monitro priodol ar gyfer portffolios presennol a bydd yn parhau i gytuno ar fetrigau priodol mewn perthynas â'r holl bortffolios newydd. Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Reolwyr Buddsoddi gynnwys metrigau o'r fath yn eu hadrodd chwarterol i Awdurdodau Cyfansoddol. |
| ● | 10.3 | Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn mynnu fod cymhwysedd buddsoddi cyfrifol yr holl reolwyr buddsoddi a benodir yn cael ei adolygu'n flynyddol. Ar y cyd â'r partïon perthnasol, bydd y Bartneriaeth yn datblygu fframwaith adrodd priodol ar gyfer ei rheolwyr buddsoddi. |
| ● | 10.4 | Yn flynyddol, bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn llunio a chyhoeddi adroddiad stiwardiaeth yn manylu ar y camau gweithredu a gymerwyd i gyflawni'r polisi hwn a'r canlyniadau a gafwyd gan ddilyn egwyddorion Côd Stiwardiaeth Cyngor Adrodd Ariannol y DU 2020. |
| ● | 11.1 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn sicrhau y bydd o leiaf un sesiwn hyfforddiant ffurfiol yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar Fuddsoddi Cyfrifol. |
| ● | 11.2 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd yn edrych ar y posibilrwydd o ymgorffori Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig yn ei chredoau buddsoddi cyfrifol ac yn ei dulliau o fonitro a mesur. |
| ● | 11.4 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn adolygu i ba raddau y mae pob parti yn cadw at y polisi hwn yn flynyddol. Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cyhoeddi canlyniadau eu hasesiad mewn adroddiad cyhoeddus. |

## Polisi (Risg) Hinsawdd

| Statws | Ref | Ymrwymiad/Datganiad Polisi |
|---|---|---|
| ● | 13 | Rôl Partneriaeth Pensiwn Cymru yw ymgynghori â phob Awdurdod Cyfansoddol mewn perthynas â'u hamcanion hinsawdd, yn flynyddol o leiaf, ac i ddeall yn llawn pa ddatrysiadau gweithredu sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu hamcanion a'u hymrwymiadau. |
| ● | 14 | Yn dilyn ei ymgynghoriad â phob Awdurdod Cyfansoddol, bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymdrechu i ddatblygu a hwyluso datrysiadau buddsoddi sy'n galluogi pob Awdurdod Cyfansoddol i gyflawni ei amcanion a'i ymrwymiadau o safbwynt yr hinsawdd. |
| ● | 15 | Lle bo'n bosibl, bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru, a'i Hawdurdodau Cyfansoddol, yn ceisio cydweithio i ddatblygu datrysiadau buddsoddi sy'n bodloni amcanion ac ymrwymiadau hinsawdd yr holl Awdurdodau Cyfansoddol. |
| ● | 16 | Os na ellir datblygu datrysiadau buddsoddi unedig a chydweithredol sy'n bodloni amcanion a gofynion pob Awdurdodau Cyfansoddol ar yr un pryd, bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gweithio gydag unrhyw Awdurdodau Cyfansoddol i ddatblygu datrysiadau buddsoddi wedi'u teilwra a fydd yn eu galluogi i gyflawni eu hamcanion a'u gofynion lleol eu hunain. |
| ● | 18, 19 | Yn flynyddol, bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn asesu a yw ei hymarfer ymgynghori gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol wedi nodi amcan cyffredin sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd y mae'r holl Awdurdodau Cyfansoddol yn fodlon ei gefnogi. |
| ● | 21 | Bydd Nod Hinsawdd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cael ei adolygu'n rheolaidd, yn dilyn ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol, a bydd bob amser yn cael ei yrru gan ofynion cyfunol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Os nad yw ymarfer ymgynghori Partneriaeth Pensiwn Cymru gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol yn nodi amcan cyffredin sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd y mae pob Awdurdod Cyfansoddol yn barod i'w gefnogi'n unfrydol, yna ni fydd Nod Hinsawdd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cael ei lunio nes bod cefnogaeth unfrydol ar gyfer Nod Hinsawdd penodol. |
| ● | 22 | Gan gydnabod ei threfniadau a'i chynigion buddsoddi presennol, bydd ffocws uniongyrchol Partneriaeth Pensiwn Cymru ar amlygiad i risg sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd o fewn ei daliadau ecwiti ac incwm sefydlog. Fodd bynnag, bydd y Bartneriaeth yn ystyried risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd mewn dosbarthiadau asedau eraill pan fydd yr amgylchiadau'n caniatáu hynny neu'n ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud hynny. Bydd y Bartneriaeth yn ymdrechu i ddarparu atebion risg hinsawdd ar draws ei holl Is-gronfeydd, gan gynnwys asedau marchnad breifat. |
| ● | 23 | Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn derbyn Adroddiadau Monitro Risg Hinsawdd chwarterol am ei His-gronfeydd Ecwiti ac Incwm Sefydlog. Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i archwilio ac ymchwilio i ddatblygiadau yn y farchnad sy'n gwella ei allu i asesu amlygiad i risg hinsawdd o fewn ei His-Gronfeydd. |
| ● | 24 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymdrechu i hwyluso dadansoddiad senario hinsawdd yn barhaus ar draws asedau a gaiff eu dal o fewn y Bartneriaeth i sicrhau bod y Awdurdodau Cyfansoddol yn ymwybodol o'r risgiau hinsawdd posibl o fewn Is-gronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru. |
| ● | 27 | Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi ymrwymo i gynnal o leiaf un sesiwn hyfforddi flynyddol sy'n gysylltiedig â risg hinsawdd ar gyfer ei rhanddeiliaid. Mae'r Bartneriaeth yn cynnal ymarfer adnabod anghenion hyfforddi blynyddol, ar y cyd â'r Awdurdodau Cyfansoddol. Dyma'r mecanwaith y mae'r Bartneriaeth yn ei defnyddio i fesur gofynion hyfforddiant risg hinsawdd ei randdeiliaid. |
| ● | 29 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gweithio gyda'i Rheolwyr Buddsoddi i sicrhau eu bod yn rhoi cyfrif am risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ac yn eu hintegreiddio yn eu prosesau buddsoddi. Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn flynyddol o leiaf, yn adolygu ymagwedd pob un o'i Rheolwyr Buddsoddi tuag at integreiddio Risg Hinsawdd. |

## Polisi (Risg) Hinsawdd

| Statws | Ref | Ymrwymiad/Datganiad Polisi |
|---|---|---|
| ● | 30 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu ynghylch risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd trwy ei Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu. Yn benodol, bydd y Bartneriaeth yn annog ei Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu i ymgysylltu â'r cwmnïau y buddsoddir ynddynt ar faterion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys cynnydd yn y datgeliadau gan gwmnïau i fuddsoddwyr ar risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ac ar ffurfio cynlluniau pontio sy'n cyd-fynd â nodau Cytundeb Paris. |
| ● | 31 | Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn monitro amlygiad i risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd o fewn ei His-gronfeydd bob chwarter. Mae'r metrigau a gaiff eu monitro'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, amlygiad i gynhyrchwyr tanwydd ffosil, allyriadau carbon a dwysedd carbon. Bydd y Bartneriaeth yn monitro newidiadau yn arferion y farchnad i sicrhau ei bod yn gwbl ymwybodol o newid mewn arferion gorau. |
| ● | 33 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn adrodd yn unol â gofynion y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol yn Gysylltiedig â'r Hinsawdd, gan gynnwys adrodd ar y camau a gymerwyd wrth gyflawni'r polisi hwn a bydd yn cefnogi'r Awdurdodau Cyfansoddol yn eu hadroddiadau Tasglu eu hunain. |
| ● | 34 | Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn annog, trwy ei Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu a'i Rheolwyr Buddsoddi, pob cwmni y buddsoddir ynddynt i ddatgelu yn unol â gofynion y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol yn Gysylltiedig â'r Hinsawdd. |

## Cysylltwch â ni:

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am unrhyw beth yn yr adroddiad hwn, dylech gysylltu â Phartneriaeth Pensiwn Cymru:

**Cyfeiriad post:**
**Partneriaeth Pensiwn Cymru**
Cyngor Sir Caerfyrddin
Adain y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP

**E-bost:**
partneriaethpensiwncymru@sirgar.gov.uk

**Ffôn:**
(01267) 224136

Mae rhagor o wybodaeth am Bartneriaeth Pensiwn Cymru a diweddariadau parhaus ar gynnydd y Bartneriaeth ar gael ar y wefan a'r dudalen LinkedIn.

**Gwefan:** https://www.partneriaethpensiwncymru.org/

**Linked-In:** https://www.linkedin.com/company/wales-pension-partnership-wpp/

